



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government


**Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL
AR GYFER LLETUYA MYFYRWYR O DAN 18 OED
GAN GOLEGAU ADDYSG BELLACH**

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i

- i) ysgolion arbennig preswyl,
- ii) ysgolion preswyl, a
- iii) colegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed

a wnaed gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y pwerau a roddwyd iddi o dan adran 107 o Ddeddf Safonau Gofal 2000



Y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
9 Chwefror 2003

Mae'r datganiad yn berthnasol i ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl a cholegau addysg pellach sy'n derbyn myfyrwyr o dan 18 oed o 1 Chwefror 2003.

Amgaeir hefyd gyflwyniad i'r tair set o safonau er mwyn egluro'r broses.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar
gyfer Lletya Myfyrwyr o dan 18 Oed
gan Golegau Addysg Bellach**

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Cynnwys

	Tudalen
Rhagarweiniad	01
1 Polisïau a gweithdrefnau lles (Safonau 1–7)	03
Datganiad o egwyddorion ac arferion	03
Mynd i'r afael â bwllo a harasio	05
Amddiffyn myfyrwyr, ymateb i honiadau	06
Polisi disgyblu myfyrwyr ac atal	08
Ymateb i gŵynion	10
Yfed o dan oed, camddefnyddio sylweddau, deunyddiau anllad	11
Cofnodion iechyd myfyrwyr	12
2 Trefnu a Rheoli (Safonau 8–12)	13
Rheoli a datblygu darpariaeth breswyl	13
Rheoli argyfyngau	14
Trefniadaeth ac ystod oedran y lletya	15
Gweithgareddau ac amser rhydd	16
Ymgynghori â myfyrwyr a'u cyfranogiad	17
3 Cymorth Lles (Safonau 13–28)	18
Cymorth staff i fyfyrwyr	18
Triniaeth feddygol a chymorth cyntaf	19
Gofal am fyfyrwyr sâl	21
Rheoli problemau iechyd a phroblemau personol	22
Gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal	23
Cysylltiad â rhieni a theuluoedd, ffonau	24
Arian ac eiddo myfyrwyr	25
Canllawiau wrth gyrraedd a gadael y coleg	26
Asesiadau risg a chofnodion	27
Arlwyo	28
Dŵr yfed, byrbrydau a cheginau myfyrwyr	29
Rhagofalon a driliau tân	30
Galwadau beichus ar fyfyrwyr	31
Lletya pobl ifanc heblaw myfyrwyr	32
Gweithgareddau risg uchel ac asesu risg	33
Goruchwyllo myfyrwyr	34
4 Staffio (Safonau 29–36)	35
Trefnu goruchwyllo myfyrwyr	35
Disgrifiadau swyddi, sefydlu, goruchwyllo a hyfforddi staff	36
Canllawiau i staff ar arferion preswyl a lles	38
Perthynas staff/myfyrwyr	39
Preifatrwydd	40
Recriwtio staff a gwiriadau ar oedolion eraill	41
Cyfle i oedolion fynd at fyfyrwyr a'u llety	43
Cyflwyno adroddiadau ar staff anaddas	44

5	Y Safle (Safonau 37-48)	45
	Llety myfyrwyr	45
	Mynediad i'r llety a'i ddiogelwch	46
	Mesurau diogelwch a gwylidwriaeth	47
	Ystafelloedd gwely	48
	Darpariaeth toiled ac ymolchi	50
	Ystafelloedd cyffredin a manau adloniant	52
	Peryglon i ddiogelwch ac asesu risg	53
	Llety ar gyfer myfyrwyr sy'n sâl	54
	Golchi dillad	55
	Prynu bwyd, deunydd ysgrifennu ac eitemau personol	56
	Tŷ Llety	57
	Llety oddi ar y safle	59

Atodiadau

1	Rhestr o Bolisiau a Dogfennau	61
2	Rhestr o Gofnodion	63
3	Geirfa	64

RHAGARWEINIAD

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â lles myfyrwyr o dan 18 oed sy'n cael eu lletya mewn neu gan golegau Addysg Bellach yng Nghymru, y mae gan y colegau ddyletswydd statudol tuag atynt, o dan adran 87 o Ddeddf Plant 1989, i'w diogelu a hybu eu lles. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn ei gwneud yn ofynnol i golegau wneud darpariaeth les benodol i fyfyrwyr o dan 18 oed, a all fod yn wahanol i'r ddarpariaeth i fyfyrwyr hŷn. Nid yw'r safonau'n ymwneud â lles neu lety myfyrwyr 18 oed neu drosodd, sydd yn oedolion ac nad ydynt felly yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Plant, er y gall sefydlu safonau ar gyfer gofal a lety myfyrwyr o dan 18 oed effeithio ar y ddarpariaeth i'r rhai sydd dros 18 oed sy'n rhannu'r un lety neu gyfleusterau.

Yn yr un modd, nid yw'r safonau yn gymwys i fyfyrwyr nad ydynt yn cael eu lletya yn y coleg neu ganddo, ond gan eu bod yn ymwneud â phynciau lles ehangach i fyfyrwyr a letyir na'r ddarpariaeth breswyl yn unig, byddant hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth y coleg i fyfyrwyr di-breswyl.

Mae'r safonau'n ymwneud yn bennaf â cholegau'r "brif ffrwd" yn hytrach na cholegau arbenigol sy'n lletya myfyrwyr ag anableddau. Mae'n ofynnol i golegau arbenigol o'r fath gofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fel cartrefi gofal; bydd colegau o'r fath wedyn yn ddarostyngedig i Reoliadau statudol a safonau cenedlaethol gofynnol ar gyfer cartrefi gofal mewn perthynas â'u holl fyfyrwyr preswyl, dros ac o dan 18 oed, yn hytrach na'r safonau yn y ddogfen hon. Byddant hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw amodau penodol yn eu cofrestriad. Mae'n ofynnol i goleg gofrestru fel cartref gofal os yw'n darparu lety, ynghyd â gofal nyrsio neu ofal personol, sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer myfyrwyr sydd yn sâl neu wedi bod yn sâl, sydd ag anhwylder meddyliol neu wedi bod ag anhwylder meddyliol, yn anabl neu'n fethedig, neu'n ddibynnol neu wedi bod yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, ac mae'r gofal a ddarperir yn cynnwys cymorth gyda swyddogaethau corfforol lle bod angen cymorth o'r fath.

Er hynny, nid yw'r diffiniad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestru fel cartref gofal yn unig oherwydd bod coleg prif ffrwd yn darparu gofal nyrsio neu ofal personol, naill ai ar sail dros dro neu ar sail parhaol, i gyfran fach o'i fyfyrwyr.

Bydd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, ac unrhyw gorff arolygu arall a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i arolygu Colegau Addysg Bellach o dan Adran 87 o Ddeddf Plant 1989, yn asesu a yw'r coleg yn diogelu ac yn hybu lles y myfyrwyr o dan 18 oed sy'n cael eu lletya yn foddhaol drwy gyfeirio at y safonau hyn. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfeirio at y safonau hyn pan fydd hynny'n berthnasol mewn unrhyw achos gorfodi y gall ei gymryd yn erbyn coleg ar sail lles myfyriwr.

Cyhoeddir y safonau'n llawn yn y fan hon fel bod pawb sy'n ymwneud â darparu neu redeg darpariaeth breswyl i fyfyrwyr mewn Colegau Addysg Bellach, yn ogystal â rhieni, myfyrwyr a'r sawl sy'n ymwneud â rheoleiddio colegau, yn gwybod yn glir pa safonau a ddisgwylir.

Safonau "gofynnol" yw'r safonau hyn, yn yr ystyr eu bod yn ofynion y dylai'r holl golegau eu bodloni wrth letya myfyrwyr. Datganiadau o "arferion preswyl da" ydynt yn hytrach nag "arferion gorau posibl".

Bydd llawer o golegau'n mwy na bodloni'r safonau gofynnol, a byddant yn gobeithio gwella arnynt mewn llawer ffordd. Bydd asesiadau yn erbyn y safonau yn edrych pa mor bell y mae'r coleg yn bodloni ei ofynion cyfreithiol i ddiogelu a hybu lles y myfyrwyr preswyl.

Gwybodaeth Bellach

Cyfrifoldeb Cymulliad Cenedlaethol Cymru yw'r safonau yma, ond cyfrifoldeb Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw eu cymhwyso at sefydliadau unigol. Gellir mynd at Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn y lle cyntaf ynghylch cymhwysedd y safonau mewn amgylchiadau penodol. Gellir cyfeirio ymholiadau eraill, er enghraifft ynglyn â'r polisiau y tu ôl i'r safonau at Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

www.childrenfirst.wales.gov.uk

1. POLISIAU A GWEITHDREFNAU LLES

Datganiad o egwyddorion ac arferion

CANLYNIAD

Dylai datganiad clir o'r ddarpariaeth breswyl a chymorth i fyfyrwyr yn y coleg fod ar gael i'r rhai y mae arnynt angen yr wybodaeth hon.

SAFON 1

1.1 Mae datganiad addas o bolisiau ac arferion y coleg ar les, llety a chymorth myfyrwyr ar gael i rieni, myfyrwyr a staff.

1.2 Mae'r datganiad (y gellir ei gynnwys mewn Prosbectws, Llawlyfr neu mewn dogfen debyg) yn ymwneud â'r pynciau canlynol:

- polisiau mynediad a gweithdrefnau'r coleg sy'n effeithio ar fyfyrwyr preswyl
- natur a threfn llety yn y coleg
- a yw myfyrwyr o dan 18 oed yn cael eu lletya ar wahân i fyfyrwyr hŷn neu beidio
- a yw myfyrwyr o dan 18 oed yn cael eu lletya yn rhywle heblaw mewn eiddo a berchenogir ac a redir gan y coleg, ac, os felly, natur unrhyw lety arall a drefnir gan neu ar ran y coleg ar graddau y mae'r coleg yn ei archwilio a'i fonitro, ar sail dros ddethol myfyrwyr o dan 18 oed i gael eu lletya yn rhywle arall heblaw safle'r coleg
- sut y dyrennir ystafelloedd i fyfyrwyr, graddau'r dewis sydd ar gael wrth ddethol llety, ac i ba raddau y gall myfyrwyr ofyn am newid eu llety
- amlinell o'r cyfleusterau lles a chymorth sydd ar gael i fyfyrwyr
- natur, graddau a chyfyngiadau goruchwyllo a monitro'r coleg ar fyfyrwyr o dan 18 oed, gan gynnwys cyfnodau gyda'r nos, ar benwythnos ac yn ystod y nos yn benodol
- polisiau ac arferion y coleg i fodloni neu gynorthwyo myfyrwyr ag anghenion crefyddol, deietegol, ieithyddol neu ddiwylliannol penodol
- amlinelliad o'r ddarpariaeth adloniant ac unrhyw raglen weithgareddau a ddarperir neu a drefnir ar gyfer myfyrwyr.

(Gall y datganiad fod yn gasgliad o ddogfennau, yn hytrach na chynnwys pob un o'r elfennau mewn un ddogfen.)

1.3 Mae'r datganiad yn gyfredol ac ar gael i rieni, rhieni arfaethedig, staff a myfyrwyr.

- 1.4** Mae'r coleg yn ei gwneud yn glir i fyfyrwyr y safonau ymddygiad ac unrhyw reolau neu waharddiadau penodedig y disgwylir iddynt eu dilyn, ac yn darparu'r disgwyliadau hyn yn ysgrifenedig i bob myfyriwr.
- 1.5** Mae'r datganiad yn adlewyrchu'n rhesymol yr arferion cyfredol yn y coleg mewn gwirionedd.

Mynd i'r afael â Bwlio a Harasio

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu hamddiffyn rhag bwlio a harasio.

SAFON 2

- 2.1 Mae gan y coleg bolisi priodol, y mae'n ei ddilyn, i fynd i'r afael â bwlio a harasio ar unrhyw ffurf, sy'n wybyddus i fyfyrwyr a staff ac sy'n effeithiol yn ymarferol.**
- 2.2** Mae'r polisi'r coleg ar fynd i'r afael â bwlio a harasio yn cynnwys mesurau i atal bwlio a harasio ac i ymateb i fwlio neu harasio y sylwir arno neu yr adroddir amdano. Mae'n ymwneud â bwlio a harasio gan fyfyrwyr eraill, gan staff ac oedolion eraill sy'n gweithio yn y coleg. Mae'r polisi'n cynnwys sut y bydd y coleg yn ymateb i adroddiadau gan fyfyrwyr fod ei fyfyrwyr yn cael eu bwlio a'u harasio yn y gymuned leol.
- 2.3** Mae gan y coleg ddiffiniad o fwlio sydd yn cynnwys galw enwau, "pigo ar" rywun, sylwadau anffafriol a gweithrediadau anffafriol sydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda staff a phlant a sydd yn cynnwys bwlio gan staff, gan blant a chan ymwelwyr a bwlio a all ddigwydd mewn man heblaw'r coleg.
- 2.4** Mae'r polisi hwn ar gael i staff a myfyrwyr ac maent yn gwybod amdano, gan gynnwys staff iau, staff atodol, staff sy'n ymweld yn aml a staff a benodwyd yn ddiweddar. Dylai'r polisi gael ei gynnwys mewn unrhyw ddeunyddiau sefydlu i staff newydd.
- 2.5** Nid oes unrhyw "seremonïau derbyn", y bwriadwyd iddynt beri poen, pryder neu waradwydd.

Amddiffyn myfyrwyr, ymateb i honiadau

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

SAFON 3

- 3.1 Mae gan y coleg bolisi priodol, y mae'n ei ddilyn, ar amddiffyn myfyrwyr o dan 18 oed rhag camdriniaeth, ac ar ymateb i honiadau neu amheuron o gamdriniaeth sydd yn gyson â gweithdrefnau lleol Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth, ac mae staff a myfyrwyr yn gwybod amdano.**
- 3.2** Mae gan y coleg bolisi ysgrifenedig ar amddiffyn myfyrwyr sy'n gyson â gofynion *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999)*, gweithdrefnau lleol Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth ac sy'n cynnwys gofyniad i gyfeirio (yn ysgrifenedig neu gyda chadarnhad ysgrifenedig o gyfeirio ffôn) unrhyw honiadau neu amheuron o gamdriniaeth¹ i'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol yn amserol er mwyn iddynt roi archwiliadau amddiffyn plant ar waith, yn hytrach na chynnal archwiliad mewnol gan y coleg.
- 3.3** Mae polisi'r coleg ar amddiffyn myfyrwyr yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer yr holl staff (gan gynnwys staff meddygol a staff nyrsio'r coleg²) ac eraill a gyflogir gan y coleg, y cyflwynir honiadau o gamdriniaeth iddynt neu sy'n amau y gallai cam-drin fod yn digwydd yn y coleg neu adref neu yn rhywle arall, gan oedolion neu gyfoedion, i ystyried mesurau y gall eu bod yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn myfyrwyr unigol, i osgoi gofyn cwestiynau arweiniol neu roi gwarantau amhriodol o gyfrinachedd, gwneud a chadw cofnodion ysgrifenedig, a rhoi adroddiad ar y mater i'r person dynodedig yn y coleg i gymryd camau pellach.
- 3.4** Mae'r coleg yn gwahardd yn bendant berthnasau rhywiol rhwng staff a myfyrwyr o dan 18 oed.
- 3.5** Mae polisi'r coleg ar amddiffyn myfyrwyr ar gael i'r holl staff, myfyrwyr ac oedolion sy'n gweithio yn y coleg.
- 3.6** Mae'r holl staff, ar bob lefel, (gan gynnwys staff sydd newydd eu penodi a staff atodol) wedi cael briff neu hyfforddiant ar sut i ymateb i amheuron neu honiadau o gamdriniaeth ac yn gwybod pa gamau y dylent eu cymryd wrth ymateb i amheuron neu honiadau o'r fath.

¹ Mae'r canllawiau statudol yn cyfeirio at amgylchiadau lle gall myfyriwr o dan 18 oed fod yn dioddef, neu fod ar risg o ddioddef, niwed sylweddol (gan gynnwys camdriniaeth gan oedolion neu fyfyrwyr eraill).

² Dylai'r polisi fod yn glir ar y camau i'w cymryd pe digwyddai i'r person dynodedig sydd, fel arfer, yn derbyn yr adroddiadau fod yn destun honiad neu amheuaeth.

- 3.7** Dynodir aelod hŷn o'r staff i fod yn gyfrifol am weithredu'r polisi ar amddiffyn myfyrwyr, cysylltu â'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol, a chydgysylltu camau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu (pan fydd hynny'n gymwys) yn dilyn unrhyw honiad neu amheuaeth ynghylch camdriniaeth neu niwed sylweddol sy'n effeithio ar fyfyrwr. Mae'r aelod hwn o'r staff wedi'i hyfforddi mewn amddiffyn plant, ac mae ganddo gopiau o ganllawiau perthnasol y llywodraeth ar amddiffyn plant ("Gweithio Gyda'n Gilydd") a gweithdrefnau lleol Amddiffyn Plant y Rhanbarth.
- 3.8** Mae yna berthynas waith effeithiol rhwng y coleg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn enwedig pryd bynnag y cafwyd amheuaeth neu honiadau o gam-drin.
- 3.9** Caiff unrhyw fyfyrwr hŷn y rhoddwyd swydd o gyfrifoldeb iddo mewn perthynas â myfyrwyr eraill ei friffio ar y camau priodol y dylai eu cymryd pe bai yn amau camdriniaeth neu cael unrhyw honiadau o gamdriniaeth.

Polisi disgyblu myfyrwyr ac atal

CANLYNIAD

Mae disgyblu myfyrwyr yn deg ac yn briodol.

SAFON 4

- 4.1 Mae gan y coleg bolisi disgyblu myfyrwyr teg a phriodol y mae'n ei ddilyn, mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol a thorri disgyblaeth myfyrwyr, ac mae'r myfyrwyr, y staff a'r rhieni yn gwybod amdano.**
- 4.2** Mae polisi'r coleg ar ddisgyblu myfyrwyr yn datgan yn glir y mathau o ymddygiad a thoriadau yn nisgyblaeth y coleg a fydd yn arwain at ystyried sancsiynau, a'r sancsiynau y gall y coleg eu rhoi. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer atal neu ddiarddel myfyriwr os yw ei ymddygiad yn peri risg sylweddol i les eraill.
- 4.3** Mae polisi'r coleg ar ddisgyblu myfyrwyr yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid rhoi gwybod i fyfyriwr yr honnir ei fod wedi torri safonau derbyniol ymddygiad neu wedi torri disgyblaeth y coleg beth yr honnir y mae wedi'i wneud, a'i fod yn cael cyfle i roi ei ochr ar y mater. Mae penderfyniadau ar sancsiynau yn cymryd i ystyriaeth yn llawn unrhyw ddatganiad gan y myfyriwr ac unrhyw amgylchiadau perthnasol, ac yn cael eu gwneud gan berson heblaw'r sawl a archwiliodd y mater neu sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ef.
- 4.4** Mae'r safonau ymddygiad myfyrwyr a welir yn foddhaol ar y cyfan.
- 4.5** Ni ddefnyddir sancsiynau afresymol neu ormodol mewn perthynas â myfyrwyr³.
- 4.6** Ni roddir pwerau i fyfyrwyr i weinyddu sancsiynau ar fyfyrwyr eraill, y tu hwnt i roi adroddiad i staff.
- 4.7** Ni chaiff unrhyw benderfyniad i atal neu ddiarddel myfyriwr preswyl o dan 18 oed rhag preswyl yn y coleg ei weithredu hyd nes bydd y coleg yn gallu dychwelyd y myfyriwr i ofal rhiant y myfyriwr, neu i lety arall a drefnir gan riant y myfyriwr.

3 Byddai enghreifftiau o sancsiynau afresymol neu ormodol yn cynnwys unrhyw ffurf ar gosb gorfforol, amddifadu rhag cael cwsg, bwyd a diod fel sancsiwn, atal neu ddiarddel myfyriwr o'i gwrs ar sail mân dramgwydd nad yw'n teilyngu'r fath sancsiwn, cyfyngu ar ryddid i gysylltu â rhieni neu deulu, unrhyw ffurf ar waradwydd neu wawdio neu ynysu oddi wrth eraill, cosbi grŵp am dramgwydd unigolyn, dirwyon sylweddol, atafaelu eiddo personol nad yw'n ffynhonnell risg i'r hunan, i eraill nac i eiddo, neu gyfyngu i ystafell neu ran o adeilad. Gall sancsiynau derbyniol, ar yr amod eu bod yn gyfatebol i'r tramgwydd, gynnwys mân ddirwyon neu ddirwyon bach, tasgau atgyweirio am y niwed a wnaed, colli breintiau coleg, dweud wrth y rhieni, ac mewn achosion eithafol, atal neu ddiarddel.

- 4.8** Cynhelir cofnod canolog ar weinyddu unrhyw sancsiwn sylweddol yn erbyn myfyriwr, yn rhoi enw'r myfyriwr o dan sylw, y rheswm am y sancsiwn, a'r aelod cyfrifol o'r staff.
- 4.9** Os bydd myfyriwr yn cael ei atal yn gorfforol ar unrhyw bryd, defnyddir dull rhesymol nad yw'n peri niwed am y cyfnod byrraf sy'n angenrheidiol i rwystro niwed i'r hunan neu i eraill neu niwed difrifol iawn i eiddo, a chaiff yr ataliad ei gofnodi'n ysgrifenedig bob amser.

Ymateb i gwynion

CANLYNIAD

Ymatebir yn ddigonol i gwynion myfyrwyr.

SAFON 5

- 5.1 Mae gan y coleg bolisi ysgrifenedig priodol, y mae'n ei ddilyn, ar ymateb i gwynion gan fyfyrwyr a chan rieni ynghylch rôl y coleg o ran diogelu a hybu lles myfyrwyr, ac mae'r myfyrwyr, y staff a'r rhieni yn gwybod amdano.**
- 5.2** Mae'r polisi'n darparu i gwynion pwysig gael eu hystyried gan berson sy'n annibynnol o'r coleg megis Cyngor Dysgu a Sgiliau Lleol.
- 5.3** Mae'r coleg yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr a'u rhieni sut y gallant gysylltu ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru am unrhyw gwyn ynghylch eu lles
- 5.4** Cedwir cofnod ysgrifenedig o gwynion difrifol a'u canlyniadau, ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan aelod hŷn o'r staff.
- 5.5** Mae tystiolaeth bod cwynion diweddar wedi cael eu datrys naill ai er boddhad yr achwynydd, neu fel arall gyda chanlyniad priodol sy'n creu cydbwysedd rhwng hawliau a dyletswyddau myfyrwyr.

Yfed o dan oed, camddefnyddio sylweddau, deunyddiau anllad

CANLYNIAD

Eir i'r afael yn briodol ag yfed o dan oed, camddefnyddio sylweddau a meddu deunyddiau anllad gan fyfyrwyr.

SAFON 6

- 6.1 Mae gan y coleg bolisiau priodol, y mae'n eu dilyn, ar fynd i'r afael â phrynu alcohol o dan oed, goryfed alcohol, camddefnyddio sylweddau, a meddu ar ddeunyddiau anllad ac ar sut i ymateb iddynt. Mae myfyrwyr a staff yn gwybod am y polisiau ac maent yn effeithiol yn ymarferol.**
- 6.2** Mae gan y coleg bolisiau priodol ar fynd i'r afael â phrynu alcohol o dan oed; goryfed alcohol; meddu, defnyddio neu werthu cyffuriau anghyfreithiol; a meddu ar ddeunyddiau anllad, ac ar sut i ymateb pan fyddant yn digwydd.
- 6.3** Cymerir pob mesur rhesymol i sicrhau cyn belled ag y mae'n ymarferol bod myfyrwyr o bob oedran yn cydymffurfio â'r cyfreithiau cyfredol ar brynu ac yfed alcohol, ac mewn perthynas â meddu, defnyddio neu werthu cyffuriau pan letyir hwy gan y coleg.
- 6.4** Mae'r coleg yn cynnal perthynas agos â'r heddlu, yn enwedig mewn perthynas â'r polisi ar arferion ynghylch gweithgareddau anghyfreithlon o fewn cymuned y myfyrwyr.
- 6.5** Mae gan unrhyw far a ddarperir gan y coleg systemau ac arferion effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag yfed o dan oed, ac nid oes unrhyw fyfyrwr o dan 18 oed yn gweithio mewn bar coleg sy'n darparu alcohol.

Cofnodion iechyd myfyrwyr

CANLYNIAD

Mae diogelu a hybu iechyd a lles myfyrwyr yn cael ei gynorthwyo gan gofnodion priodol.

SAFON 7

- 7.1 Os yw myfyrwyr a rhieni'n rhoi'r wybodaeth, mae cofnodion digonol yn cael eu cadw mewn perthynas ag anghenion a materion iechyd a lles y myfyrwyr unigol.⁴**
- 7.2** Mae cofnodion unigol i fyfyrwyr o dan 18 oed, ac maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am iechyd a lles a ddarperir gan rieni neu gan y myfyrwyr eu hunain, sy'n nodi'n benodol unrhyw anghenion iechyd unigol y mae'n rhaid eu bodloni tra bydd y myfyriwr yn y coleg (os yw'r coleg wedi cael gwybod amdanynt), ar modd y bydd y coleg yn bodloni'r anghenion hynny neu'n cynorthwyo'r myfyriwr i'w bodloni.
- 7.3** Mae cofnodion y myfyrwyr yn cynnwys enwau personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros fyfyrwyr o dan 18 oed, manylion i gysylltu â rhieni a threfniadau cyswllt brys eraill, ac unrhyw orchmynion llys sy'n effeithio ar gyfrifoldeb rhiant neu ar ofal y myfyriwr. Dylai'r cofnodion hyn gael eu hadolygu'n rheolaidd.
- 7.4** Mae cofnodion y myfyrwyr (e.e. cofnodion coleg yn hytrach na chofnodion y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, a gedwir gan staff nyrsio'r coleg neu'r metron) yn dangos unrhyw ymatebion sylweddol gwybyddus i gyffuriau, alergeddau pwysig a chyflyrau meddygol nodedig, ac mae'r wybodaeth hon ar gael i'r staff sy'n debygol o roi'r feddyginiaeth neu'r driniaeth i'r myfyrwyr hynny neu oruchwylio'r myfyrwyr wrth iddynt gymryd y feddyginiaeth eu hunain. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r aelod hwnnw o'r staff.
- 7.5** Trefnir bod gwybodaeth am anghenion lles ac unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer myfyrwyr unigol ar gael, mewn modd effeithiol, i'r staff hynny y mae angen iddynt wybod.
- 7.6** Ymdrinnir â gwybodaeth bersonol ynghylch myfyrwyr â chyfrinachedd priodol.

4 Nid yw'r safon hon yn ymwneud â chofnodion y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a all gael eu cadw yn y coleg neu gan nyrs y coleg neu feddyg y coleg, ond mae'n cynnwys unrhyw gofnodion coleg heb fod yn rhai NHS a gedwir gan nyrs y coleg neu staff arall.

Trefnu a Rheoli

Rheoli a datblygu darpariaeth breswyl

CANLYNIAD

Mae arweiniad clir ar ddarpariaeth breswyl yn y coleg.

SAFON 8

- 8.1 Mae atebolrwydd rheolaeth glir ar lety a lles myfyrwyr o dan 18 oed.**
- 8.2** Mae'r cyfrifoldeb dros lety a lles myfyrwyr o dan 18 oed sy'n cael eu lletya yn y coleg neu gan y coleg yn cael ei ysgwyddo'n glir gan un neu fwy o aelodau dynodedig o blith staff hŷn y coleg, gyda llinellau clir o atebolrwydd wrth reoli'r swyddogaethau hynny o ddydd i ddydd.
- 8.3** Mae corfforaeth y coleg neu gorff llywodraethu arall yn gwneud darpariaeth benodol, o ran cyllid ac adnoddau, ar gyfer cynnal a datblygu gwasanaethau llety a lles myfyrwyr.
- 8.4** Mae gan y coleg fesurau effeithiol ar waith, drwy ei drefniadau contract a thrwy ei weithdrefnau monitro, i sicrhau cyn belled ag y mae'n ymarferol bod y gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan a ddarperir i fyfyrwyr ar ei ran yn bodloni'r safonau yn y ddogfen hon ac nad ydynt yn peryglu lles myfyrwyr.
- 8.5** Mae'r coleg yn gweithredu proses o hunan-asesu cyson ar ei arferion mewn perthynas â llety a lles myfyrwyr.
- 8.6** Mae'r holl staff â chyfrifoldebau llety neu les myfyrwyr yn cael hyfforddiant sefydlu wrth ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny am y tro cyntaf, ac yn cael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant priodol wedi hynny.
- 8.7** Mae gweithdrefn foddhaol ar ddisgyblu staff, sy'n cynnwys darpariaeth i atal staff yn rhagofalus pan fydd angen wrth ddisgwyl ymchwiliad neu benderfyniad terfynol yn dilyn honiadau neu bryderon a allai gael effaith sylweddol o bosibl ar les myfyrwyr.
- 8.8** Mae polisi ac arferion y coleg yn gwbl eglur yn ei gwneud yn ofynnol i staff gyflwyno adroddiad i aelod dynodedig hŷn o staff y coleg, neu i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, ynghylch unrhyw bryder neu honiad am arferion y coleg neu ymddygiad cydweithwyr sy'n debygol o roi myfyrwyr o dan risg camdriniaeth neu niwed difrifol arall; ac mae'n darparu imiwnedd rhag dial neu gamau disgyblu yn erbyn y cyfryw staff am "chwythu'r chwiban" os cafodd hyn ei wneud yn ddidwyll.

2. RHEOLI ARGYFYNGAU

CANLYNIAD

Mae argyfyngau sy'n effeithio ar les myfyrwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol.

SAFON 9

- 9.1 Mae'r coleg yn gallu rheoli argyfyngau sy'n effeithio ar les myfyrwyr yn foddhaol.**
- 9.2** Mae cynlluniau rhesymol wedi'u sefydlu i reoli ystod o argyfyngau y gellir eu rhagweld sydd yn ymwneud â lles myfyrwyr, gan gynnwys llety brys i fyfyrwyr os yw'r uned breswyl yn y coleg yn amhosibl byw ynddi (e.e. oherwydd tân).
- 9.3** Wrth wneud penderfyniadau mewn unrhyw argyfwng neu frys sy'n effeithio ar les myfyrwyr, mae'r staff yn gwneud yr hyn sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i ddiogelu a hybu lles y myfyrwyr o dan sylw.

Trefniadaeth ac ystod oedran y lletya

CANLYNIAD

Mae trefniadaeth y coleg ar ddarpariaeth breswyl yn diogelu lles myfyrwyr.

SAFON 10

- 10.1 Nid yw lletya myfyrwyr yn arwain at bryderon lles lle caiff myfyrwyr o dan 18 oed eu lletya gyda myfyrwyr sy'n oedolion, neu lle caiff y ddau gender eu lletya gyda'i gilydd.**
- 10.2** Nid oes anghysondeb mawr mewn ansawdd llety na chyfleusterau i genderau gwahanol.
- 10.3** Nid yw myfyrwyr o dan 18 oed yn rhannu ystafelloedd gwely gyda myfyrwyr o'r gender gwahanol nac yn rhannu gyda myfyrwyr sy'n oedolion os gallai hynny fod yn andwyol i'w lles.
- 10.4** Os yw'r coleg y lletya myfyrwyr o dan 18 oed ac oedolion yn yr un adeilad neu uned, neu'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed mewn adeilad neu uned sy'n lletya myfyrwyr o'r ddau gender, mae'r coleg yn cynnal asesiad risg ysgrifenedig rheolaidd (yn flynyddol o leiaf) mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau lles anffafriol sydd ynghlwm â'r trefniadau hyn, gan gymryd camau priodol i leiafu'r cyfryw oblygiadau yng ngoleuni'r asesiadau risg hynny ac yng ngoleuni unrhyw ddigwyddiadau lles anffafriol a all ddigwydd.

Gweithgareddau ac amser rhydd

CANLYNIAD

Mae cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ystod a dewis o weithgareddau.

SAFON 11

- 11.1 Mae ystod briodol a dewis o weithgareddau a darpariaeth adloniant i fyfyrwyr o dan 18 oed.**
- 11.2** Mae'r coleg yn trefnu, neu'n cynorthwyo'r myfyrwyr i drefnu, ystod a dewis o weithgareddau i fyfyrwyr y tu allan i amser dosbarth.
- 11.3** Mae cyfle priodol gan fyfyrwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon coleg, ac i ddefnyddio cyfleusterau adloniant a hobiau y tu allan i amser dosbarth.
- 11.4** Os yw'r myfyrwyr yn preswyllo ar y penwythnos, mae amrediad sylweddol o weithgareddau ar gael ar y penwythnosau ac mae'r myfyrwyr ar rhieni'n cael gwybodaeth lawn am yr hyn sydd ar gael cyn ymrestru.

Ymgynghori â myfyrwyr â'u cyfranogiad

CANLYNIAD

Galluogir myfyrwyr i gyfrannu at weithrediad y ddarpariaeth breswyl yn y coleg.

SAFON 12

12.1 Ymgynghorir â myfyrwyr o dan 18 oed ynghylch darpariaeth llety a lles.

12.2 Mae cyfleoedd ffurfiol (e.e. cynghorau coleg, cyfarfodydd, archwiliadau) i fyfyrwyr o dan 18 oed fynegi eu barn ar agweddau perthnasol o'u llety, eu lles a'u cymorth lles, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gynrychiolwyr myfyrwyr.

12.3 Cymerir i ystyriaeth agweddau a phryderon priodol myfyrwyr, sydd wedi'u mynegi'n briodol, wrth ddarparu a datblygu llety a darpariaeth les i fyfyrwyr, a chymerir camau i ymateb i bryderon cyfreithlon myfyrwyr sy'n ymwneud â'u llety neu'u lles.

3. CYMORTH LLES

Cymorth staff i fyfyrwyr

CANLYNIAD

Mae myfyrwyr yn cael cymorth personol gan staff.

SAFON 13

- 13.1 Mae gan bob myfyriwr un neu fwy nag un aelod o'r staff y gall ef neu hi droi ato i gael arweiniad personol neu leisio problem bersonol.**
- 13.2** Mae'r coleg yn dynodi staff y gall myfyrwyr fynd â phryderon personol a cheisiadau am arweiniad atynt, a'u rôl yn benodol yw darparu arweiniad a chymorth lles i fyfyrwyr. Gall myfyrwyr drafod materion personol â'r cyfryw staff yn breifat.
- 13.3** Mae'r coleg yn darparu pob myfyriwr o dan 18 oed â thiwtor personol â chyfrifoldeb penodol (yn ychwanegol at unrhyw rôl diwtorial academiaidd) i gynorthwyo a chynghori'r myfyriwr hwnnw ar faterion personol a lles.
- 13.4** Mae'r coleg yn enwi un person o leiaf y tu allan i staff academiaidd neu staff rheoli materion preswyl y coleg (a all fod yn gwmselwr neu'n berson allanol i'r coleg) y gallant gysylltu ag ef yn uniongyrchol ynghylch problemau neu bryderon personol yn y coleg.
- 13.5** Mae pob person a enwir i fyfyrwyr ar gyfer cyswllt o'r fath wedi bod yn destun gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn yr un modd â staff y coleg sy'n cael cysylltiad cyson â myfyrwyr, gyda chanlyniad boddhaol.
- 13.6** Rhoddir rhifau ffôn y llinellau cymorth priodol y tu allan i'r coleg i fyfyrwyr fel y gallant gysylltu â hwy i gael cyngor a chymorth.
- 13.7** Mae systemau cyfathrebu effeithiol rhwng staff sy'n goruchwylio llety myfyrwyr, staff lles myfyrwyr, a staff addysgu neu ddarlithio i'w cynorthwyo i ddiogelu a hybu lles myfyrwyr, ac sy'n cyfathrebu'r wybodaeth angenrheidiol ynghylch myfyrwyr ar y sail bod angen iddynt wybod, ond nad ydynt yn torri cyfrinachedd myfyrwyr yn ddiangen.

Triniaeth feddygol a chymorth cyntaf

CANLYNIAD

Mae myfyrwyr yn cael cymorth cyntaf a gofal iechyd yn ôl yr angen.

SAFON 14

- 14.1 Mae cymorth cyntaf a thriniaeth briodol ar gyfer mân anhwylderau ar gael i fyfyrwyr yn y coleg, ac mae cyfle i ddefnyddio gwasanaethau meddygol a deintyddol yn ôl yr angen.**
- 14.2** Mae myfyrwyr yn cofrestru â meddyg o'u dewis eu hunain, a all fod yn ymarferydd cyffredinol lleol, neu (os yw hynny'n dderbyniol gan y myfyriwr) â swyddog meddygol sy'n ymweld â'r coleg.
- 14.3** Mae trefniadau boddhaol gan y coleg i sicrhau cyfle i'r myfyrwyr gael cymorth a chyngor meddygol, deintyddol a rhywiol yn ôl yr angen, heb oedi gormodol.
- 14.4** Mae'r coleg yn galluogi'r myfyrwyr i ymweld â'u hymarferwyr cyffredinol neu dderbyn ymweliadau ganddynt pan fo'r myfyrwyr yn dymuno hynny. Nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr roi gwybod i staff am ba resymau y maent yn dymuno ymgynghori â'u hymarferwyr cyffredinol.
- 14.5** Mae unrhyw staff nyrsio dynodedig yn y coleg yn dal cofrestriad nyrsio cyfredol â'r corff cofrestru nyrsio, ac mae'r coleg wrth eu penodi wedi cadarnhau eu bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ni ddefnyddir y teitl "nyrs" ar gyfer staff sydd heb eu cofrestru felly.
- 14.6** Os oes gan y coleg nyrs ddynodedig yn y coleg, dylai'r nyrs honno gael cyfle i fynd at feddyg a enwir i gael canllawiau ac ymgynghoriad proffesiynol.
- 14.7** Rhoddir triniaeth cymorth cyntaf a thriniaeth i fân anhwylder yn y coleg gan staff dynodedig cymwys (e.e. gan nyrs neu berson cymorth cyntaf cymwysedig neu o dan eu goruchwyliaeth).
- 14.8** Mae myfyrwyr fel arfer yn gofalu am eu meddyginiaeth eu hunain ac yn ei gymryd eu hunain., Mae'r coleg yn egluro eu polisi ar storio a rhoi meddyginiaeth i fyfyrwyr o dan 18 oed i'r myfyrwyr a'r rhieni.
- 14.9** Cynhelir cofnod⁵ coleg ysgrifenedig o bob meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf a roddir i fyfyrwyr, gan roi'r enw, y dyddiad, y feddyginiaeth neu'r driniaeth, y rheswm dros ei rhoi (onid ar bresgripsiwn), a llofnodir y cofnod gan yr aelod cyfrifol o'r staff a chaiff ei fonitro'n rheolaidd gan aelod hŷn dynodedig priodol o'r staff. Cedwir cofnod hefyd o unrhyw wrthodiad i dderbyn meddyginiaeth sydd fel arfer yn cael ei roi gan aelod o staff y coleg, ac o ddychweliad unrhyw feddyginiaeth a gedwir ar ran myfyriwr neu a roddir iddo yn ôl i'r myfyriwr hwnnw ar ei gais.

5 hy. ar wahân i gofnodion Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol y myfyriwr

- 14.10** Cynhelir cofnod coleg ysgrifenedig o bob anhwylder, damwain neu anaf sylweddol i fyfyrwr (p'un ai fel rhan o'r cofnodion meddyginiaeth a thriniaeth coleg uchod neu ar wahân), boed yn y coleg neu yn rhywle arall tra bod y coleg yn gofalu amdanynt.
- 14.11** Yn eu gwybodaeth i rieni a myfyrwr, mae'r coleg yn nodi eu polisi ar ganiatâd rhieni ar gyfer sicrhau cyfle i'r myfyrwr gael triniaeth feddygol neu ddeintyddol pan fydd eu hangen.
- 14.12** Mae'r coleg yn ceisio ac yn dilyn cyngor meddygol mewn perthynas ag unrhyw glefyd heintus sy'n brigo ymysg myfyrwr.

Gofal am fyfyrwyr sâl

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu goruchwylio'n ddigonol pan fyddant yn sâl.

SAFON 15

- 15.1 Mae trefniadau boddhaol ar gael i sicrhau bod golwg yn cael ei gadw yn rheolaidd ar fyfyrwyr sy'n sâl tra byddant yn y coleg neu mewn llety a drefnir gan y coleg, ac y gallant alw am gymorth yn hwylus ac yn gyflym pan fydd ei angen.**

Rheoli problemau iechyd a phroblemau personol

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu cynorthwyo mewn perthynas ag unrhyw broblemau iechyd neu broblemau personol.

SAFON 16

- 16.1** Caiff problemau iechyd a phroblemau personol sylweddol myfyrwyr unigol eu canfod a'u rheoli'n briodol.
- 16.2** Mae'r coleg yn cymryd camau rhesymol, ynghylch pob myfyriwr, i ganfod a oes ganddo unrhyw anghenion meddygol neu bersonol arbennig wrth iddo ymrestru yn fyfyriwr preswyl.
- 16.3** Caiff myfyrwyr ag anawsterau neu anableddau meddygol, neu sydd angen triniaeth neu reolaeth arbennig arnynt oherwydd problemau iechyd neu les, eu cynorthwyo'n briodol, ac addesir gweithgareddau fel y bo hynny'n briodol.
- 16.4** Os oes gan fyfyriwr anghenion cymorth iechyd neu gymorth personol sy'n ddigon i alw am ymwybyddiaeth neu fonitro gan aelod o staff, mae'r coleg yn llunio cynllun gofal personol ar gyfer y myfyriwr, gan ymgynghori â'r myfyriwr a rhieni'r myfyriwr, mae'r cynllun yn cael ei fynegi i'r staff y mae angen arnynt wybod ei gynnwys, ac yn cael ei ddilyn yn effeithiol.
- 16.5** Caiff myfyrwyr sy'n hiraethu am eu cartref eu cynorthwyo'n briodol yn y coleg.
- 16.6** Caiff myfyrwyr sy'n mynd drwy gyfnodau o straen personol (e.e. oherwydd problemau gartref, galar, neu bwysau cymdeithasol neu addysgol) eu cynorthwyo'n briodol.
- 16.7** Caiff unrhyw fyfyriwr y mae'r staff yn canfod ei fod o dan risg sylweddol o hunanladdiad ei gynorthwyo'n briodol.
- 16.8** Defnyddir gwasanaethau proffesiynol o'r tu allan (e.e. gweithiwr cymdeithasol, seicolegydd) yn ôl yr angen gan fyfyrwyr unigol.

Gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal

CANLYNIAD

Nid yw myfyrwyr yn cael profiad o wahaniaethu amhriodol.

SAFON 17

- 17.1 Nid yw'r coleg yn gwahaniaethu'n amhriodol ar sail gender, anabledd, hil, crefydd, cefndir diwylliannol, cefndir ieithyddol, argyhoeddiadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu allu academiaidd neu allu mewn chwaraeon. Mae'r coleg yn cymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth ofalu am fyfyrwyr, ac yn cynorthwyo'n briodol unrhyw grwpiau lleiafrifol adnabyddadwy ac yn cymryd camau rhesymol i'w hintegreiddio i'r prif gorff o fyfyrwyr. Dylai'r coleg gymryd camau i gynorthwyo a chefnogi myfyrwyr sydd ag anhawster yn integreiddio gyda myfyrwyr eraill am unrhyw reswm.**
- 17.2** Mae dogfennau'r coleg yn dangos agwedd briodol at gyfleoedd cyfartal ac at osgoi gwahaniaethu amhriodol yn ei holl ffurfiau.
- 17.3** Gwneir darpariaeth briodol os yw'n ddichonadwy ac os gofynnir amdano i fyfyrwyr ag anghenion neu arferion diwylliannol neu grefyddol penodol.
- 17.4** P'un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith y coleg, darperir cymorth priodol i fyfyrwyr nad yw'r prif iaith yn iaith gyntaf iddynt, yn y ddarpariaeth breswyl yn ogystal â thrwy ddysgu yn y coleg.
- 17.5** Mae'r coleg yn darparu canllawiau priodol, yn cymryd unrhyw gamau priodol pellach i ddiogelu a hybu lles y myfyrwyr, ac yn rhoi gwybod i rieni'r myfyriwr, os credir bod myfyriwr yn cymryd rhan mewn unrhyw grŵp neu weithgaredd sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau arferol rhyddid meddwl neu fynegiant, gwybodaeth, cynnull neu chymdeithasu, cydwybod neu grefydd, ac sy'n creu risg sylweddol i les y myfyriwr, i ddiogelwch y cyhoedd neu i drefn, iechyd neu foesau cyhoeddus, neu i hawliau a rhyddid pobl eraill⁷.

6

7 Cyngorir colegau i gymryd cyngor cyfreithiol mewn achosion pwysig o'r natur hon, ar y camau amddiffynnol priodol i gyflawni gofynion y Ddeddf Plant a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn yr amgylchiadau penodol.

Cysylltiad â rhieni a theuluoedd, ffonau

CANLYNIAD

Mae'r myfyrwyr yn gallu cadw cysylltiad preifat â'u rhieni a'u teuluoedd.

SAFON 18

- 18.1 Mae'r coleg yn galluogi myfyrwyr i gysylltu â'u rhieni a'u teuluoedd mewn preifatrwydd.**
- 18.2** Mae'r coleg yn darparu un neu fwy o ffonau tirwifr (megis ffonau talu) i fyfyrwyr eu defnyddio, mewn niferoedd sy'n osgoi rhesi disgwyl sylweddol ar gyfer eu defnyddio, mewn lleoliadau sy'n hygyrch o bob rhan o lety myfyrwyr, sy'n cynnig lefel resymol o breifatrwydd wrth eu defnyddio, ac sy'n cael eu cynnal-a'u-cadw a'u trwsio yn ôl yr angen fel eu bod yn gweithio'n iawn.
- 18.3** Mae'r coleg yn hyrwyddo cysylltiad myfyrwyr â'u rhieni, ac ymweliadau rhieni â'u plant yn y coleg, ar adegau rhesymol.
- 18.4** Oni bai nad yw'r myfyriwr yn cydsynio â hynny, mae'r coleg yn cysylltu â rhieni ynghylch pryderon lles sylweddol sy'n ymwneud â myfyrwyr.
- 18.5** Mae'r coleg yn frwd ei anogaeth i rieni myfyrwyr o dan 18 oed i ymweld â'r coleg a'i ddarpariaeth breswyl ac i drafod trefniadau preswyl y coleg a goruchwylio myfyrwyr cyn i'w plant gyrraedd fel myfyrwyr.

Arian ac eiddo myfyrwyr

CANLYNIAD

Diogelir eiddo personol ac arian y myfyrwyr.

SAFON 19

- 19.1 Mae'r coleg yn darparu diogelwch rhesymol i eiddo personol y myfyrwyr ac i unrhyw arian gan y myfyrwyr y gofelir amdanynt gan y coleg.**
- 19.2** Os bydd y coleg yn darparu gwasanaeth "bancio" mewnol neu system ddiogelu arian myfyrwyr, mae'r trefniadau a wneir yn darparu diogelwch boddhaol a chedwir cofnod ysgrifenedig cywir o'r adneuo, tynnu allan a balansau, gan gynnwys cydlofnodi gan y myfyriwr o dan sylw.
- 19.3** Mae gan bob myfyriwr le addas, diogel priodol a hawdd mynd iddo i gadw eiddo personol a phethau gwerthfawr yn ddiogel (e.e. drôr y gellir ei gloi, cwpwrdd, neu locer).

Canllawiau wrth gyrraedd a gadael y coleg

CANLYNIAD

Mae'r myfyrwyr yn cael canllawiau, wrth gyrraedd y coleg ac wrth baratoi i'w adael.

SAFON 20

- 20.1 Mae prosesau priodol o sefydlu a chanllawiau i fyfyrwyr newydd sy'n cyrraedd y coleg, a chanllawiau a pharatoad i fyfyrwyr cyn iddynt adael y coleg.**
- 20.2** Rhoddir gwybodaeth addas i fyfyrwyr newydd ynghylch arferion a rheolau'r coleg, ac ynghylch trefniadau a darpariaeth breswyl yn benodol, gan gynnwys yr wybodaeth allweddol yn ysgrifenedig.

Asesiadau risg a chofnodion

CANLYNIAD

Mae asesiadau risg a chofnodion a gedwir gan y coleg yn cyfrannu at les myfyrwyr.

SAFON 21

- 21.1 Mae aelod hŷn o staff y coleg yn monitro cofnodion y coleg ar asesiadau risg, sancsiynau yn erbyn myfyrwyr, cŵynion a damweiniau, yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw faterion sy'n gofyn am gamau gweithredu.**
- 21.2** Caiff cofnodion o asesiadau risg, unrhyw sancsiynau yn erbyn myfyrwyr, cŵynion a damweiniau eu monitro'n rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) gan aelod hŷn dynodedig o'r staff.
- 21.3** Cymerir camau rhesymol i leihau'r risgiau a enwir gan asesiadau risg ac mewn perthynas ag unrhyw grynhoad neu duedd mewn sancsiynau, tramgwyddau disgyblaeth coleg, cŵynion neu ddamweiniau cofnodedig.

Arlwyo

CANLYNIAD

Mae'r myfyrwyr yn cael darpariaeth arlwyo o ansawdd da.

SAFON 22

22.1 Darperir prydau bwyd i fyfyrwyr sy'n ddigonol mewn maint, ansawdd, dewis a darpariaeth ar gyfer anghenion deietegol, meddygol neu grefyddol arbennig, gyda chytleri, llestri a chyfleusterau bwyta glân ac addas.

22.2 Mae'r coleg yn darparu tri phryd y dydd i fyfyrwyr o dan 18 oed (onid oes trefniadau boddhaol i fyfyrwyr arlwyo drostynt eu hunain neu gael prydau y tu allan i'r coleg) – gall hyn gynnwys darpariaeth a rennir gyda myfyrwyr dydd neu fyfyrwyr sy'n oedolion.

22.3 Mae'r prydau bwyd a ddarperir i fyfyrwyr yn faethlon, yn rhesymol gytbwys, ac yn ddigonol o ran maint, ansawdd, hylendid a thymheredd.

22.4 Mae gan fyfyrwyr ddewis o brif gwrs yn y prif brydau, gan gynnwys dewis llysieuol.

22.5 Arlwyr darpariaeth ddigonol ar gyfer myfyrwyr ag anghenion deietegol, meddygol neu grefyddol arbennig y mae'n ofynnol iddynt gael darpariaeth arlwyo arbennig.

22.6 Mae'r llestri a'r cytleri yn ddigonol ac yn briodol lân.

22.7 Mae'r ystafelloedd bwyta a'r dodrefn yn addas ac o ddigon o faint ar gyfer niferoedd ac oedrannau'r myfyrwyr sy'n bwyta.

22.8 Mae darpariaeth arlwyo ar gael ar gyfer myfyrwyr preswyl ar benwythnosau ac ar adegau eraill pan fydd nifer llai o fyfyrwyr ar y safle.

22.9 Mae digon o amser yn ystod y prydau bwyd, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw amser y mae'n ofynnol i ddisgwyl am fwyd, i'r myfyrwyr orffen eu prydau'n iawn.

22.10 Mae staff a myfyrwyr sy'n ymwneud â pharatoi bwyd ar gyfer eraill wedi cael hyfforddiant priodol mewn trafod bwyd a hylendid bwyd.

22.11 Nid oes unrhyw argymhellion arwyddocaol gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol sydd heb eu gweithredu.

Dŵr yfed a byrbrydau a cheginau myfyrwyr

CANLYNIAD

Mae gan fyfyrwyr gyfle i gael bwyd a dŵr yfed yn ychwanegol at y prif brydau bwyd.

SAFON 23

- 23.1 Mae gan fyfyrwyr gyfle i gael dŵr yfed yn y manau preswyllo a'r manau addysgu, a'r cyfle i gael bwyd neu'r modd i baratoi bwyd ar adegau rhesymol yn ychwanegol at y prif brydau.**
- 23.2** Mae dŵr yfed ar gael ym mhob llety preswyl ar bob adeg resymol (os yw'r ddarpariaeth hon yn ymyl tapiau basnau ymolchi, mae'r coleg wedi cadarnhau bod y cyflenwad dŵr o ansawdd y gellir ei yfed).
- 23.3** Mae dŵr yfed ar gael i fyfyrwyr yn ystod y diwrnod coleg ar adegau rhesymol yn ychwanegol at amserau bwyd.
- 23.4** Mae gan fyfyrwyr geginau neu gyfleusterau tebyg i storio bwyd a pharatoi eu byrbrydau a'u diodydd poeth ac oer eu hunain yn hylan⁸.

⁸ Mae'n gwbl dderbyniol i'r coleg wahardd myfyrwyr rhag defnyddio tegellau neu offer coginio yn eu hystafelloedd, a rhag cael oergelloedd yn eu hystafelloedd, ar sail diogelwch a hylendid.

Rhagofalon a driliau tân

CANLYNIAD

Diogelir myfyrwyr rhag risg tân.

SAFON 24

- 24.1** Mae myfyrwyr a staff â dyletswyddau darparu preswyl yn ymwybodol o weithdrefnau gwacáu llety preswyl ar frys. Dylai gweithdrefnau o'r fath gynnwys unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer staff neu fyfyrwyr ag anabledd. Mae unrhyw argymhellion gan y Gwasanaeth Tân yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlenni a roddir ac yn cael eu cynnal.
- 24.2** Mae cofnodion yn dangos bod driliau tân wedi'u cynnal yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) yn ystod "amser preswyl".
- 24.3** Mae cofnodion yn dangos bod profion goleuadau argyfwng, larymau tân, ac offer ymladd tân wedi'u cynnal yn rheolaidd.
- 24.4** Mae cofnodion y coleg yn dangos bod asesiadau risg yn ymwneud â risgiau tân a rhagofalon tân wedi'u cynnal (yn ôl y gofynion o dan Reoliadau Rhagofalon Tân (y Gweithle) 1999).

Galwadau beichus ar fyfyrwyr

CANLYNIAD

Ni pheryglir lles myfyrwyr gan alwadau anarferol neu feichus.

SAFON 25

- 25.1 Mae'r colegau lle mae galwadau anarferol neu arbennig o feichus ar fyfyrwyr yn sicrhau eu bod yn briodol i'r myfyrwyr o dan sylw ac nad ydynt yn effeithio mewn dull annerbyniol ar les y myfyrwyr.**
- 25.2** Mae galwadau beichus ar fyfyrwyr (e.e. gofynion cwrs i fyfyrwyr amaethyddol yn gynnar iawn yn y bore) wedi cael eu dynodi ac yn cael eu rheoli'n foddhaol er mwyn osgoi niweidio lles myfyrwyr (er enghraifft, drwy sicrhau bod rotau bore cynnar i roi sylw i anifeiliaid yn osgoi rhoi dyletswyddau o'r fath am gyfnodau maith i fyfyrwyr o dan 18 oed).
- 25.3** Mae gan fyfyrwyr amser rhydd rhesymol bob dydd ochr yn ochr ag unrhyw alwadau mawr eraill ar eu hamser.

Lletya pobl ifanc heblaw myfyrwyr

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles unrhyw bobl ifanc nad ydynt yn fyfyrwyr yn y coleg tra cânt eu lletya yn y coleg.

SAFON 26

- 26.1 Mae'r coleg yn darparu'n foddhaol ar gyfer lles unrhyw bobl ifanc o dan 18 oed nad ydynt yn fyfyrwyr yn y coleg ond sy'n cael eu lletya ganddo.⁹**
- 26.2** Mae unrhyw weithgareddau preswyl pan fydd y coleg yn lletya pobl ifanc o dan 18 oed heblaw myfyrwyr y coleg ac yn gofalu amdanynt (e.e. gweithgareddau preswyl yn y gwyliau) yn darparu'n foddhaol ar gyfer goruchwyllo, lles a diogelwch y bobl ifanc hynny tra lletyir hwy yn y coleg.

⁹ Mae'r coleg yn lletya pobl ifanc heblaw ei fyfyrwyr ei hun os yw'r coleg, neu unrhyw aelod o'i staff fel rhan o'u gwaith dros y coleg, yn gyfrifol am edrych ar eu hól yn ystod eu harhosiad yn y coleg. Dylid ystyried ymwelwyr sy'n bobl ifanc o dan 18 oed sy'n lletya yn y coleg, hyd yn oed os yw eu staff eu hunain gyda hwy, fel "myfyrwyr dros dro". Nid yw'r safon hon yn gymwys os yw'r coleg wedi gosod ei lety i gorff arall, a fydd yn gyfrifol ei hun am edrych ar eu hól.

Gweithgareddau risg uchel ac asesu risg

CANLYNIAD

Amddiffynnir diogelwch a lles myfyrwyr yn ystod gweithgareddau risg uchel.

SAFON 27

- 27.1 Mae gweithgareddau sy'n adnabyddadwy fel rhai risg uchel ac sy'n cael eu darparu i fyfyrwyr yn cael eu goruchwyllo'n gymwys ynghyd â mesurau diogelwch digonol a phriodol.**
- 27.2** Mae'r coleg yn gweithredu asesiadau risg, ac yn eu cofnodi'n ysgrifenedig, mewn perthynas â gweithgareddau sy'n adnabyddadwy fel rhai risg uchel i fyfyrwyr (gan gynnwys gweithgareddau adloniant, "gloywi" a gweithgareddau'n ymwneud â chysiau), gan nodi peryglon sylweddol i fyfyrwyr.
- 27.3** Mae'r coleg yn cymryd mesurau rhesymol i leiafu risgiau diangen i iechyd, diogelwch neu les myfyrwyr.
- 27.4** Mae gweithgareddau sy'n adnabyddadwy fel rhai risg uchel (gan gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chwrs a gweithgareddau "gloywi" ac adloniant ill dau) yn cael eu cyfarwyddo neu'u goruchwyllo gan oedolion sy'n dal y cymhwyster perthnasol i addysgu, gyfarwyddo neu oruchwyllo'r gweithgaredd o dan sylw.
- 27.5** Cymerir camau diogelwch, a darperir offer diogelwch, i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n adnabyddadwy fel rhai risg uchel, yn unol ag arferion da sefydledig ar gyfer y gweithgaredd neu'r cwrs o dan sylw, neu argymhellion corff llywodraethu neu gymdeithas genedlaethol briodol ar gyfer y chwaraeon neu'r gweithgaredd o dan sylw, pan fydd hynny'n gymwys.
- 27.6** Sicrheir caniatâd ysgrifenedig rhiant i fyfyrwyr dan 18 oed i gymryd rhan mewn cysiau neu weithgareddau adloniant neu "gloywi" sy'n adnabyddadwy fel gweithgareddau risg uchel ac sy'n cael eu rhedeg gan y coleg neu yn cael eu trefnu gan y coleg gyda grwpiau neu gyrff eraill, neu y mae'r myfyrwyr eu hunain yn eu trefnu tra lletyir hwy yn y coleg.
- 27.7** Pan mae'r coleg yn cymryd myfyrwyr i ganolfan sy'n darparu gweithgareddau y mae angen eu trwyddedu o dan Reoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur, mae'r coleg yn gallu dangos ei fod wedi gwirio bod y ganolfan wedi'i thrwyddedu felly¹⁰

¹⁰ Mae'n debygol y bydd angen trwyddedu os yw cwmni masnachol neu awdurdod lleol yn darparu ogofeuo, dringo, abseilio, hirdeithio, merlota, beicio mynydd, sgïo oddi ar y piste, neu chwaraeon dŵr megis canŵio, rafftio a hwyllo. Mae trwyddedu yn ymwneud â darpariaethau diogelwch, ac nid yw'n cynnwys gwiriadau ar addasrwydd staff i weithio gyda phobl ifanc.

Goruchwylio myfyrwyr

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu goruchwylio'n ddigonol yn eu hamser rhydd.

SAFON 28

- 28.1 Caiff myfyrwyr o dan 18 oed eu goruchwylio'n ddigonol yn ystod eu hamser rhydd i leihau'n arwyddocaol risgiau i'w lles, gan ystyried eu statws cyfreithiol fel plant, tra'n sicrhau eu rhyddid i gymryd rhan mewn gweithgareddau myfyrwyr a chael mynd i gyfleusterau lleol y tu allan i'r coleg.**
- 28.2** Mae'r graddau y mae'r coleg yn monitro ac yn goruchwylio gweithgareddau myfyrwyr o dan 18 oed yn ystod eu hamser rhydd – gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu gweithgareddau, unrhyw drefniadau ar gyfer monitro'u hamser i ffwrdd o safle neu gampws y coleg, y graddau (os o gwbl) y mae'n ofynnol i fyfyrwyr o dan 18 oed roi gwybod i staff neu geisio caniatâd i adael safle'r coleg, a'r graddau (os o gwbl) y mae goruchwyliaeth myfyrwyr o dan 18 oed yn gwahaniaethu oddi wrth oruchwyliaeth ar fyfyrwyr sy'n oedolion yn yr un llety neu ar yr un cwrs – yn cael eu datgan yn glir i rieni pob myfyriwr preswyl o dan 18 oed ac yn cael eu cytuno ganddynt yn ysgrifenedig cyn i'r myfyrwyr breswyl yn y coleg (e.e drwy gytundeb preswyl neu ddogfen debyg).
- 28.3** Mae trefniadau goruchwylio o'r fath yn wybyddus i'r staff sydd â dyletswyddau goruchwylio ac i'r myfyrwyr eu hunain.
- 28.4** Mae'r coleg yn monitro a yw myfyrwyr o dan 18 oed i ffwrdd dros nos heb ganiatâd neu heb reswm derbyniol, neu'n absennol o ddosbarthiadau arferol neu weithgareddau cwrs, neu os ydynt yn dychwelyd i'r coleg yn llawer hwyrach na'r disgwyl, ac mae'n cymryd y camau priodol i ddarganfod ble mae myfyriwr, ei les a'r reswm dros ei absenoldeb.
- 28.5** Pan fydd y coleg yn canfod pryder lles sylweddol, neu risg o niwed sylweddol i iechyd, diogelwch neu les myfyriwr o dan 18 oed, naill ai drwy fod yn absennol o'r coleg neu drwy weithgareddau amhriodol y mae'r myfyriwr yn ymwneud â hwy, yna:
- mae'n cynghori'r myfyriwr ar ymddygiad priodol ac osgoi'r risg a ganfyddwyd,
 - mae'n rhoi gwybod i riant neu rieni'r myfyriwr (oni bai nad yw hynny'n ddichonadwy),
 - os yw'n ddichonadwy, ac am gyfnod rhesymol mae'n cynyddu lefel y monitro a'r goruchwylio ar leoliad y myfyriwr a'i weithgareddau
 - mae'n ystyried (gyda'r rhieni fel y bo'n briodol) ac, os yw'n ddichonadwy, mae'n cymryd unrhyw gamau addas penodol y mae eu hangen er mwyn diogelu a hybu lles y myfyriwr.
- 28.6** Mae unrhyw weithgareddau gwasanaeth cymunedol trefnedig gan fyfyrwyr y tu allan i'r coleg yn addas ac yn cael eu goruchwylio'n addas gyda lefelau diogelwch derbyniol.

4. STAFFIO

Trefnu goruchwyllo myfyrwyr

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu goruchwyllo'n ddigonol gan staff.

SAFON 29

- 29.1 Tra byddant yn preswyllo yn y coleg neu mewn llety a drefnir gan y coleg, mae'r myfyrwyr yn gwybod pa aelod o'r staff sy'n gyfrifol amdanynt ac yn gallu cysylltu â hwy pan fydd angen hynny.**
- 29.2** Mae staff digonol, mewn niferoedd ac argaeledd, i gynnal goruchwylloeth ddigonol ar fyfyrwyr ar holl safleoedd y coleg y tu allan i amser addysgu, gan gymryd i ystyriaeth oedran a natur poblogaeth y myfyrwyr, cynllun y coleg ar tiroedd, ac ystod a natur unrhyw weithgareddau cysylltiedig.
- 29.3** Caiff myfyrwyr eu goruchwyllo'n ddigonol gan staff y gallant gysylltu â hwy os oes angen pan fyddant i ffwrdd o safle'r coleg ar ymweliadau, tripiâu neu deithiau a drefnwyd neu a gymeradwywyd gan y coleg (gall goruchwyllo fod gan y staff sy'n mynd gyda'r grŵp neu ar y llaw arall gan y staff sy'n cymeradwyo'r trefniadau perthnasol ac sydd ar gael i'r myfyrwyr gysylltu â hwy bob amser).
- 29.4** Mae trefniadau boddhaol ar gyfer goruchwyllo unrhyw fyfyrwyr sy'n aros yn llety'r coleg yn ystod cyfnodau gwyliau'r coleg (gan gynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith am dâl yn ystod y gwyliau ond sy'n dal i gael eu lletya gan coleg).
- 29.5** Mae trefniadau cyflenwi boddhaol pan fydd staff goruchwyllo'n sâl neu'n absennol.
- 29.6** Mae gan y coleg bolisi boddhaol, y mae'n ei ddilyn, ar ddiogelwch a goruchwyllo myfyrwyr yn ystod teithiau a drefnir gan y coleg, gan gynnwys cludiant coleg, defnyddio cerbydau preifat a defnydd gan y coleg o gludiant cyhoeddus.
- 29.7** Mae'r grŵp staff sy'n goruchwyllo myfyrwyr preswyl yn cynnwys staff o'r ddau gender os yw hyn yn ymarferol o fewn strwythur staffio'r coleg.
- 29.8** Mae modd i staff wybod pa fyfyrwyr o dan 18 oed sy'n cysgu ym mhob adeilad neu uned bob nos (e.e. rhag ofn tân neu fyfyrwr ar goll).

Disgrifiad swydd, sefydlu, goruchwyllo a hyfforddi staff

CANLYNIAD

Mae staff sy'n gyfrifol am fyfyrwyr preswyl yn cael dyletswyddau preswyllo a lles penodol, gyda sefydlu digonol a hyfforddiant parhaol.

SAFON 30

- 30.1 Mae gan bob staff â chyfrifoldebau penodol dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr ddisgrifiadau swydd sy'n adlewyrchu'r dyletswyddau hynny, maent wedi cymhwyso'n briodol, maent yn cael hyfforddiant sefydlu ar y cyfrifoldebau hynny pan benodir hwy ar y dechrau, ac maent yn cael adolygiad rheolaidd o'u harferion goruchwyllo a lles myfyrwyr, gyda chyfleoedd i gael hyfforddiant parhaol.**
- 30.2** Mae gan y coleg ddisgrifiadau swydd i staff â chyfrifoldebau goruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr, sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau cyfredol yn gywir ac yn glir.
- 30.3** Mae gan bob staff â chyfrifoldebau penodol dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr gymwysterau perthnasol a/neu brofiad a chymhwysedd ar gyfer y tasgau a lefel y cyfrifoldeb y maent yn ymgymryd â hwy.
- 30.4** Mae trefniadau clir gan y coleg ar gyfer goruchwyllo staff atodol a staff contract ac unrhyw staff dros dro neu staff asiantaeth neu wirfoddolwyr sy'n gweithio yn y coleg.
- 30.5** Mae gan y coleg raglen hyfforddiant sefydlu briodol mewn goruchwyllo, ac mewn diogelu a hybu lles myfyrwyr preswyl, ar gyfer staff sydd newydd eu penodi â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr.
- 30.6** Mae rhaglen y coleg ar gyfer sefydlu a hyfforddi staff yn cynnwys canllawiau ar amddiffyn plant sy'n berthnasol i amgylchiadau, cyrsiau, gweithgareddau a strwythur staffio'r coleg.
- 30.7** Mae staff sydd â chyfrifoldeb dros oruchwyllo myfyrwyr o dan 18 oed neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr wedi cael canllawiau sylfaenol ar sut i ganfod a chynorthwyo myfyrwyr a all fod mewn risg sylweddol o gyflawni hunanladdiad, a sut i sicrhau cymorth allanol priodol ar gyfer myfyrwyr o'r fath.
- 30.8** Mae gan y coleg broses briodol ar gyfer adolygu'n rheolaidd berfformiad pob aelod o'r staff sydd â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr, a hynny gan aelod hŷn neu fwy profiadol o'r staff (e.e. drwy gyfarfodydd goruchwyllo unigol neu drwy system werthuso staff).

- 30.9** Mae disgrifiadau swydd yn datgan yn glir, ac mae'r staff eu hunain yn glir ynghylch pwy yw'r person y mae pob aelod o'r staff sydd â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr yn atebol iddo.
- 30.10** Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd i hyfforddi a diweddarau mewn arferion preswyl a lles myfyrwyr i'w holl staff sydd â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr, sy'n cynnwys cyfleoedd i staff newydd a staff profiadol.

Canllawiau i staff ar arferion preswyl a lles

CANLYNIAD

Gofelir am fyfyrwyr gan staff sy'n dilyn polisiau ac arferion preswyl a lles clir.

SAFON 31

- 31.1 Darperir pob aelod staff sydd â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr â chanllawiau ysgrifenedig cyfredol ar bolisiau ac arferion y coleg ar oruchwyllo myfyrwyr preswyl a diogelu a hybu eu lles.**
- 31.2** Mae llawlyfr staff diweddar neu ganllawiau ysgrifenedig tebyg ar gael yn hwylus i bob aelod staff sydd â chyfrifoldebau dros oruchwyllo myfyrwyr preswyl neu ddarparu gwasanaethau lles myfyrwyr.
- 31.3** Mae canllawiau o'r fath yn ymdrin yn ddigonol ag agwedd y coleg tuag at oruchwyllo myfyrwyr a diogelu a hybu lles myfyrwyr; amddiffyn plant; polisiau gwrth-fwlio a sancsiynau; warden y coleg neu systemau sy'n cyfateb iddynt; tiwtor y coleg neu systemau sy'n cyfateb iddynt; natur a therfynau unrhyw rolau a roddir i fyfyrwyr hŷn mewn perthynas â myfyrwyr eraill neu lety myfyrwyr; ymateb i broblemau personol myfyrwyr; trafod cŵynion gan fyfyrwyr a rhieni; ac unrhyw nodweddion arbennig ar ddarpariaeth breswyl neu les y coleg.
- 31.4** Mae canllawiau o'r fath yn ymdrin yn ddigonol ag arferion o ddydd i ddydd wrth fonitro a goruchwyllo myfyrwyr preswyl o dan 18 oed; unrhyw gyfyngiadau a roddir ar fyfyrwyr o dan 18 oed; unrhyw wahaniaethau sy'n ofynnol wrth oruchwyllo myfyrwyr o dan 18 oed o'u cymharu â myfyrwyr sy'n oedolion; monitro a'r ymateb sy'n ofynnol ei gael am absenoldeb myfyrwyr; a chanfod unrhyw bryder lles sylweddol neu risg o niwed sylweddol i fyfyrwr o dan 18 oed a'r ymateb sy'n ofynnol iddo.

Perthynas staff / myfyrwyr

CANLYNIAD

Mae perthynas dda rhwng staff a myfyrwyr.

SAFON 32

32.1 Mae staff yn deall pwysigrwydd datblygu perthnasau da gyda'r corff myfyrwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth ddylanwad eu rol proffesiynol ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn eu perthynas â myfyrwyr.

Preifatrwydd

CANLYNIAD

Caiff preifatrwydd personol myfyrwyr ei barchu.

SAFON 33

33.1 Mae goruchwyliaeth y staff dros fyfyrwyr yn osgoi ymyrryd yn ddiangen ar breifatrwydd myfyrwyr.

33.2 Caiff myfyrwyr eu goruchwyllo gan staff drwy batrolio priodol a thrwy fod ar gael mewn llety preswyl a safle a thir y coleg, ac nid yw staff yn ymyrryd ar fyfyrwyr nac ar eu hystafelloedd gwely unigol na'u lle toiled/ymolchi yn amhriodol neu mewn dull sy'n codi cywilydd ar fyfyrwyr.

33.3 Ni chyflawnir gwiriadau neu archwiliadau ar ystafelloedd gwely myfyrwyr naill ai heb ganiatâd y myfyriwr o dan sylw neu heb reswm pendant sy'n ymwneud â lles y myfyriwr hwnnw neu les eraill, ac ni chyflawnir hwy heb i'r myfyriwr o dan sylw fod yn bresennol (onid yw'r myfyriwr o dan sylw yn dymuno peidio â bod yn bresennol neu os nad yw ei bresenoldeb yn ymarferol). (Nid yw hyn yn atal mynd i ystafelloedd gwely os oes angen hynny i chwilio am fyfyrwyr sydd wedi methu â dod i ddosbarth neu i chwilio am weithgareddau anghyfreithlon fel cymryd cyffuriau).

Recriwtio staff a gwiriadau ar oedolion eraill

CANLYNIAD

Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda myfyrwyr yn cael eu dethol a'u fetio yn ofalus.

SAFON 34

34.1 Mae'r broses recriwtio ar gyfer pob aelod staff (gan gynnwys staff atodol a'r rhai ar sail contract neu sesiwn) a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda myfyrwyr o dan 18 oed¹¹ yn cynnwys gwiriadau drwy system wirio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (gyda manylion fel y bo'n briodol), gyda chanlyniad boddhaol. Mae yna broses recriwtio foddhaol a gofnodir yn ysgrifenedig.

34.2 Mae system y coleg ar gyfer recriwtio staff (gan gynnwys staff atodol, staff contract neu sesiwn a gwirfoddolwyr) a fydd yn gweithio gyda myfyrwyr o dan ddeunaw oed yn cynnwys y canlynol i gyd cyn penodi, a gellir gwirio hynny oddi wrth y cofnodion recriwtio:

- i. gwiriad o bwy yw'r person yn erbyn dogfen swyddogol
- ii. gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ar y lefel uchaf sydd ar gael, gyda chofnod ysgrifenedig yn dangos bod y gwiriadau hyn wedi'u gwneud gyda chanlyniad boddhaol
- iii. tystlythyrau ysgrifenedig, gan gynnwys y cyflogwr diweddaraf, gyda llythyr cais am dystlythyr sy'n benodol yn gofyn i bob canolwr ddatgan unrhyw reswm y mae'n gwybod amdano pam na ddylid cyflogi'r person i weithio gyda phobl ifanc ac ni ddylai fod unrhyw gamddatganiad neu hepgor materol sy'n berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd
- iv. cysylltiad uniongyrchol gan y coleg â phob un o'r canolwyr i wirio'r tystlythyrau
- v. cyfweliad, gyda chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad
- vi. gwiriad ar y prawf o gymwysterau perthnasol, gyda chofnod ysgrifenedig ei fod wedi'i gwblhau
- vii. gofyniad i ymgeiswyr roi hanes eu cyflogaeth yn llawn, a datganiad y gall y coleg gysylltu ag unrhyw gyflogwr blaenorol
- viii. cyswllt rhwng y coleg a phob cyflogwr blaenorol a oedd yn ymwneud â gweithio gyda phlant neu bobl ifanc neu oedolion hawdd eu niweidio i wirio'r rhesymau pam y daeth y gyflogaeth i ben
- ix. esboniad am unrhyw fylchau yn y CV, gyda chofnod ysgrifenedig gan y coleg ei fod wedi holi am esboniadau am y bylchau a'u bod yn foddhaol.

¹¹ Y diffiniad o weithio gyda phlant yw'r un a ddefnyddir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

- 34.3** Mae'r coleg yn rhoi i bob oedolyn sy'n preswyllo yn llety'r coleg, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y coleg (h.y. oedolion sy'n aelodau o aelwydydd staff) ganllawiau sy'n nodi'n glir y safonau ymddygiad ac uniondeb a ddisgwylir oddi wrthynt fel preswylwyr ar safle'r coleg. Dylai'r rhain gynnwys canllawiau ar gysylltiadau â myfyrwyr a'u cyfrifoldebau dros oruchwyllo'u hymwelwyr. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys gwybodaeth hefyd am y sancsiynau sydd ar gael i'r coleg os caiff y safonau ymddygiad hyn eu torri.
- 34.4** Mae cynigion penodi i staff ac eraill yn ddarostyngedig i'r gwiriadau recriwtio uchod yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i gwblhau Gwiriadau Cofnodion Troseddol yn foddhaol a thystlythyrau boddhaol os na chafwyd hwynt eisoes.
- 34.5** Nid yw aelodau o'r staff (nac eraill) sy'n ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn 37.2 yn dechrau gweithio (na phreswyllo) yn y coleg nes cwblhau'r holl wiriadau yn foddhaol a chael y tystlythyrau. Fel eithriad, gall aelod o staff ddechrau gweithio os yw rhai tystlythyrau neu wiriadau eto i ddod, ond mae'n rhaid cwblhau holl wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mewn achosion o'r fath, rhaid bod tystiolaeth fod pob ymdrech wedi'i gwneud i fynd ar drywydd y gwiriadau a'r tystlythyrau, a rhaid i'r person gael ei oruchwyllo fel nad oes ganddynt fynediad sylweddol heb ei oruchwyllo at fyfyrwyr preswyl o dan 18 oed.
- 34.6** Mae gan y coleg naill ai system foddhaol i weithredu gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar staff asiantaeth sydd â chysylltiad cyson â phobl ifanc o dan 18 oed neu mae ganddo drefniadau boddhaol yn sicrhau nad yw'r coleg yn rhoi mynediad sylweddol heb ei oruchwyllo i'r cyfryw staff at y myfyrwyr o dan 18 oed neu mae ganddo dystiolaeth fod yr asiantaeth wedi gweithredu'r gwiriadau angenrheidiol o fewn y 12 mis diwethaf.

Cyfle i oedolion fynd at fyfyrwyr a'u llety

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu diogelu rhag cysylltiad heb ei oruchwylio ag oedolion na fuont yn destun gweithdrefnau gwirio recriwtio cyflawn y coleg.

SAFON 35

- 35.1 Nid yw'r coleg yn caniatáu i unrhyw aelod o staff, (gan gynnwys staff atodol, staff sesiwn neu gontract, a gwirfoddolwyr) i gael cysylltiad rheolaidd â myfyrwyr o dan 18 oed oni chafodd yr aelod hwnnw o'r staff ei wirio'n foddhaol gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.**
- 35.2** Cyn belled ag y bo'n ymarferol, cedwir pob oedolyn sy'n ymweld â llety preswyl ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed (e.e. ymwelwyr, personél danfon a chynnal) o dan ddigon o oruchwyliaeth staff i'w rhwystro rhag iddynt gael mynediad sylweddol heb eu goruchwylio at fyfyrwyr o dan 18 oed neu at eu llety.

Cyflwyno adroddiadau ar staff anaddas

CANLYNIAD

Mae'r coleg yn cyfrannu at y system genedlaethol i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cysylltiadau ag oedolion anaddas.

SAFON 36

- 36.1 Mae'r coleg yn bodloni ei ofynion statudol i gyflwyno adroddiad ar berson sy'n cael ei ddiswyddo am gamymddwyn neu sy'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau y byddai'r coleg wedi ystyried diswyddo'r person am gamymddwyn ynddynt.**

5. Y SAFLE

Llety myfyrwyr¹²

CANLYNIAD

Darperir llety byw boddhaol i fyfyrwyr.

SAFON 37

- 37.1 Mae llety preswyl myfyrwyr (gan gynnwys ystafelloedd gwely a manau byw), ac unrhyw lety arall a ddarperir i fyfyrwyr, yn cael eu goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n briodol, eu dodrefnu'n addas, yn hygyrch i unrhyw fyfyrwyr a letyir sydd ag anableddau, ac yn cael eu haddurno, eu glanhau a'u cynnal-a'u-cadw yn ddigonol.**
- 37.2** Mae dodrefniadau'r unedau preswyl a manau arall i fyfyrwyr yn addas, yn gysurus ac mewn cyflwr boddhaol.
- 37.3** Mae llety'r myfyrwyr a'i ddodrefn, ei ffitiadau a'i offer yn gyffredinol yn rhydd rhag toriadau a rhag eitemau niferus neu sylweddol sydd angen eu cynnal-a'u-cadw.
- 37.4** Mae manau lle mae pobl yn hel o gwmpas (megis cynteddau mynediad, grisiau, coridorau) o faint a chynllun digonol.
- 37.5** Nid yw llety preswyl yn swnllyd yn ddiangen.
- 37.6** Nid yw adeiladau ac unedau llety myfyrwyr, na'u dodrefn a'u hoffer, wedi dioddef niwed fandaliaeth neu graffiti sylweddol sydd heb ei drwsio.
- 37.7** Os oes myfyrwyr ag anableddau, mae eu llety'n addas neu wedi'i addasu'n briodol iddynt allu mynd i'r holl fannau a'r cyfleusterau y mae arnynt angen eu defnyddio.
- 37.8** Nid yw cynllun a lleoliad yr ystafelloedd y mae myfyrwyr yn cysgu, bwyta, cael adloniant a chael eu haddysgu ynddynt yn cynnig anawsterau sylweddol i fyfyrwyr ar gyfer mynediad na theithio rhyngddynt.

12. Dylid bodloni safonau llety mewn llety preswyl a ddarperir i fyfyrwyr gan gymdeithasau tai neu gan gyrff eraill o dan drefniadau a wneir gyda'r coleg, hyd yn oed os oes gan fyfyrwyr unigol eu trwyddedau neu eu tenantiaethau â'r corff hwnnw, ond nid mewn llety a drefnir gan y coleg mewn tai preifat, lle mae safon 47 ar dai llety yn gymwys.

Mynediad i'r llety a'i ddiogelwch

CANLYNIAD

Mae gan fyfyrwyr eu llety byw eu hunain, yn ddiogel rhag ymyrraeth gyhoeddus.

SAFON 38

- 38.1 Dylid neilltuo llety preswyl i'w ddefnyddio gan y myfyrwyr hynny a ddynodwyd i'w ddefnyddio, a'i ddiogelu rhag mynediad iddo gan y cyhoedd.**
- 38.2** Mae manau ar gyfer myfyrwyr i'w defnyddio'n unig gan y myfyrwyr hynny a ddynodwyd i'w defnyddio, heblaw drwy wahoddiad rhesymol y myfyrwyr hynny.
- 38.3** Mae polisi coleg clir a phriodol ar fynediad i dir ac adeiladau'r coleg a mynediad at fyfyrwyr gan bobl y tu allan i'r coleg, weithredir mewn gwirionedd.
- 38.4** Mae mesurau diogelwch addas a digonol wedi'u sefydlu i rwystro mynediad heb awdurdod gan y cyhoedd i lety preswyl myfyrwyr ac adeiladau eraill a ddefnyddir gan fyfyrwyr (e.e. pan fo'n gymwys, cloeon diogelwch, ataliadau ar ffenestri hawdd torri drwyddynt, defnyddio larymau tresmaswyr).
- 38.5** Pan fydd dichon gwneud hynny wrth ystyried natur safle'r coleg, cymerir mesurau rhesymol i rwystro neu atal y cyhoedd rhag cael mynediad sydd heb ei awdurdodi i diroedd y coleg.
- 38.6** Nid yw unrhyw ddefnydd cyhoeddus o gyfleusterau'r coleg yn sefydlu mynediad sylweddol heb ei oruchwylio at fyfyrwyr o dan 18 oed, neu fynediad i lety myfyrwyr o dan 18 oed tra bod myfyrwyr yn lletya yno, gan aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys aelodau o grwpiau a drefnwyd sy'n defnyddio cyfleusterau'r coleg).

Mesurau diogelwch a gwyliadwriaeth

CANLYNIAD

Mae unrhyw fesurau diogelwch neu wylidwriaeth yn darparu diogelwch er mwyn amddiffyn myfyrwyr, heb beryglu eu preifatrwydd.

SAFON 39

- 39.1 Mae unrhyw fesurau diogelwch, darparu staff diogelwch, a teledu cylch cyfyng neu offer gwyliadwriaeth arall ar safle'r coleg yn cyfrannu'n bositif ac yn effeithiol at ddiogelwch a lles myfyrwyr, ond nid yw'n peryglu neu'n ymyrryd â'u preifatrwydd rhesymol.**
- 39.2** Mae'r coleg yn rhoi gwybodaeth lawn i fyfyrwyr os yw staff diogelwch yn cael eu cyflogi ar safle'r coleg, ac os defnyddir teledu cylch cyfyng neu ddyfeisiadau gwyliadwriaeth neu fonitro electronig neu fecanyddol eraill ar safle'r coleg, fel nad yw gwyliadwriaeth o weithgareddau myfyrwyr neu safleoedd a ddefnyddir gan fyfyrwyr yn gudd neu nad yw'r myfyrwyr o dan sylw'n gwybod amdano.
- 39.3** Nid yw unrhyw teledu cylch cyfyng neu ddyfeisiadau electronig neu fecanyddol a ddefnyddir gan y coleg yn gwylio ystafelloedd gwely'r myfyrwyr, y manau ymolchi ar toiledau, na'r tu mewn i geginau ac ystafelloedd cyffredin mewn manau neu unedau preswyl ac nid ydynt fel arall yn ymyrryd yn annerbyniol ar breifatrwydd myfyrwyr (h.y. dylent gael eu cyfyngu fel arfer i fonitro manau ar y tu allan, mynedfeydd a phwyntiau mynediad i'r safle ar adeiladau o'r tu allan, a dylent gael eu cyfyngu ar y tu mewn i fannau lle mae pobl yn hel o gwmpas yn unig).

Ystafelloedd gwely

CANLYNIAD

Mae gan fyfyrwyr lety cysgu boddhaol.

SAFON 40

40.1 Mae ystafelloedd gwely'r myfyrwyr wedi'u dodrefnu'n addas ac o faint digonol ar gyfer llety ac anghenion y myfyrwyr a letyir.

40.2 Mae gan fyfyrwyr naill ai ystafell wely sengl, neu maent yn rhannu ystafell gydag un myfyriwr neu fwy o'r un gender drwy gytundeb parhaus pob myfyriwr o dan sylw. Ni ddylid lletya mwy na phedwar myfyriwr mewn un ystafell.

40.3 Mae'r gwelyau yn sengl, o'r math traddodiadol neu'n 'uned caban', ac nid yn welyau bync, ac maent o faint digonol, yn sad, o wneuthuriad diogel ac mewn cyflwr da, gyda matresi o drwch rhesymol sy'n lân ac mewn cyflwr da.

40.4 Mae'r dillad gwely'n lân, yn addas ac yn ddigonol, ac yn ddigon cynnes yn y gaeaf¹³.

40.5 Mae digon o le o amgylch y gwelyau i fyfyrwyr newid yn gyffyrddus, a digon o uchder uwchben.

40.6 Mae ystafelloedd gwely'r myfyrwyr o faint digonol a heb eu gorlenwi¹⁴.

40.7 Mae ffenestr gan bob ystafell wely y gellir ei hagor i gael awyr iach, sy'n darparu lefel foddhaol o olau naturiol yn ystod y dydd, ac mae ganddi lenni neu fleindiau y gellir eu cau yn y nos.

40.8 Yn ogystal â gwely, mae ystafelloedd gwely myfyrwyr yn cynnwys desg neu arwyneb addas ar gyfer astudio, gyda lefel foddhaol o oleuo (neu olau darllen) ar gyfer astudio, o leiaf un gadair¹⁵, cabinet neu fwrdd wrth y gwely, digon o socedau trydan wedi'u lleoli'n briodol ar gyfer defnyddio offer trydan heb ddefnydd gormodol neu beryglus o geblau estyniad sy'n llusgo,

¹³ Mae'n dderbyniol disgwyl i fyfyrwyr ddod â'u dillad gwely eu hunain, ar yr amod bod y coleg yn darparu dillad gwely i unrhyw fyfyriwr nad yw'n dod â'i ddillad gwely ei hun a phan fo angen dillad gwely ychwanegol.

¹⁴ Pan fydd yn ofynnol cyfeirio at safon lle ffisegol i asesu meintiau ystafelloedd sydd ar y ffyn neu sy'n ddadleuol, neu wrth gynllunio llety newydd, dylid dilyn y canllawiau o 6m² o leiaf o arwynebedd llawr defnyddiadwy ar gyfer ystafell sengl, ac o leiaf 1.6 m² plws 4.2 m² y myfyriwr mewn ystafell ar gyfer dau neu fwy o fyfyrwyr. Mae "arwynebedd llawr defnyddiadwy" yn cynnwys arwynebedd llawr yr ystafell wely a lenwir gan ddodrefn ystafell neu'r tu ôl i ddrysau pan agorir hwy, ond nid yr arwynebeddau nas dodrefnwyd o dan nenfydau isel neu ar oleddf lle nad yw myfyrwyr yn gallu sefyll yn syth. Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar y Rheoliadau Safleoedd Ysgolion.

¹⁵ Pan fydd lle yn caniatáu, dylid darparu cadair esmwyth wedi'i glustogi yn ogystal â chadair ddesg.

ffynhonnell ddiogel i wresogi y gellir ei rheoli y tu mewn i'r ystafell, lle i storio dillad, lle storio neu silffoedd ar gyfer deunyddiau cwrs ac astudio, a lle i gadw eitemau personol mewn cwpwrdd neu ddrôr y gellir ei gloi.

- 40.9** Mae'r myfyrwyr yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely hwy eu hunain (caniateir i staff gadw pàs ac allweddi sbâr).
- 40.10** Mae'r mannau cysgu naill ai wedi'u carpedu neu mae ganddynt orchudd llawr addas arall nad yw'n peri risg o ysgyrion neu friwiau i draed noeth nac yn creu risg baglu. Mae'r gorchudd llawr mewn cyflwr a glendid derbyniol.
- 40.11** Os dymunant, caiff myfyrwyr bersonoli eu hystafelloedd gwely o fewn rheswm â phosteri ac eitemau personol.

Darpariaeth toiled ac ymolchi

CANLYNIAD

Mae gan fyfyrwyr gyfleusterau toiled a chyfleusterau ymolchi digonol ac maent yn ddigonol mewn preifatrwydd.

SAFON 41

41.1 Dylai cyfleusterau toiled a chyfleusterau ymolchi digonol fod ar gael yn hawdd i fyfyrwyr, gyda phreifatrwydd priodol.

41.2 Ceir nifer digonol o doiledau. Erbyn 2005, pan nad oes toiled en suite unigol yn ystafelloedd y myfyrwyr, mae gan bob adeilad neu uned sy'n lletya myfyrwyr un toiled o leiaf ar gyfer pob pum myfyriwr sydd heb ddarpariaeth toiled en suite (yn yr unedau sy'n lletya myfyrwyr gwrywaidd yn unig, gellir darparu wrinalau yn lle hyd at dau draean o'r nifer gofynnol hwn o doiledau).

41.3 Mae'r toiledau:

- yn rhesymol agos a gellir mynd iddynt yn hawdd o'r manau cysgu a'r manau byw
- mewn ystafelloedd neu mewn cuddyglau ar wahân, gyda pharwydydd a drysau heb fylchau uwch eu pen neu odanynt sy'n ddigon mawr i fod yn agored i ymyrraeth â phreifatrwydd
- yn gweithio'n iawn, gyda phapur (a chyfleusterau gwaredu tyweli misglwyf a thamponau addas ar gyfer myfyrwyr benywaidd)
- wedi'u ffitio â chloeon ystafell neu guddygl y gwelir eu bod yn gweithio'n iawn
- yn lân ac wedi'u hawyru'n ddigonol
- mae basnau ymolchi gyda sebon, dŵr twym a modd i sychu dwylo'n gyfagos i bob toiled ac wrinal
- lle bo ystafelloedd gwely sydd heb fasnau ymolchi, mae pob adeilad yn darparu o leiaf un basn ymolchi ar gyfer pob tri myfyriwr sydd heb fasn ymolchi yn eu hystafell, yn agos i'r ystafelloedd cysgu ac yn hawdd mynd atynt oddi yno
- pan nad oes cawodydd en suite unigol yn ystafelloedd y myfyrwyr, mae gan bob adeilad neu uned sy'n lletya myfyrwyr un gawod neu faddon o leiaf ar gyfer pob deg myfyriwr sydd heb ddarpariaeth cawod en suite, ac mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cawodydd. Mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon
- mae'r cawodydd yn rhesymol agos a gellir mynd iddynt yn hawdd o'r ystafelloedd gwely
- mae pob cawod a baddon mewn ystafelloedd neu guddyglau unigol gyda phreifatrwydd boddhaol

- mae cyfleusterau cawodydd a baddonau yn lân ac wedi'u hawyru'n ddigonol.

41.4 Mae'r plymio a'r cyflenwad dŵr twym yn ddigonol i gynnal digon o gyflenwad o ddŵr i'r cawodydd a'r baddonau.

41.5 Mae drysau ystafelloedd ymolchi unigol a thoiledau mewn colegau sy'n lletya myfyrwyr anabl, yn agor at allan, os yw hynny'n ymarferol, ac mae ganddynt gloeon sy'n agor o'r tu allan mewn argyfwng.

Ystafelloedd cyffredin a manau adloniant

CANLYNIAD

Mae gan fyfyrwyr gyfle i fynd i ystod o fannau adloniant.

SAFON 42

- 42.1 Mae ystod a dewis o fannau adloniant diogel y gall myfyrwyr fynd iddynt, y tu mewn a'r tu allan.**
- 42.2** Mae ystod a dewis o ystafell gyffredin neu manau adloniant eraill ar gael i fyfyrwyr y tu allan i amser addysgu, gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn ddigonol ar gyfer y niferoedd o fyfyrwyr sy'n eu defnyddio, naill ai yn eu llety preswyl neu gerllaw iddo. (Gellir cyfuno ystafelloedd cyffredin â darpariaeth gegin ar gyfer myfyrwyr.)
- 42.3** Mae ystod a dewis o fannau diogel awyr agored o fewn tiroedd y coleg, neu fannau y gellir eu cyrraedd yn hwylus a diogel o adeiladau'r coleg, ar gael i fyfyrwyr ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar adegau addas.
- 42.4** Mae cyfle gan fyfyrwyr i fynd i'w hystafelloedd gwely bob amser.
- 42.5** Mae darpariaeth ystafell gyffredin yn cynnwys darparu cyfle i wylio teledu.

Peryglon i ddiogelwch ac asesu risg

CANLYNIAD

Diogelir myfyrwyr rhag peryglon i'w diogelwch.

SAFON 43

- 43.1 Dylai'r manau tu mewn a'r manau tu allan a ddefnyddir gan fyfyrwyr neu sydd ar gael iddynt, fod yn rhydd rhag peryglon i ddiogelwch y gellir eu hosgoi'n rhesymol.**
- 43.2** Mae ffenestri y mae risg sylweddol y gall tresbaswr ymwthio drwyddynt, y gallant beri niwed i rywun sy'n mynd heibio tra ar agor, neu risg y bydd myfyrwyr yn disgyn, yn cael eu ffitio â chyfyngiadau agor addas.
- 43.3** Mae ffenestri lle mae risg sylweddol y gall rhywbeth daro yn eu herbyn naill ai wedi'u gwneud o wydr diogelwch (o fath sy'n bodloni'r Safon Brydeinig berthnasol), neu wedi'u diogelu'n addas fel arall.
- 43.4** Mae mesurau diogelwch rhesymol ac effeithiol ar gyfer diogelwch myfyrwyr sy'n defnyddio adeiladau neu fannau unig (megis cyfleusterau chwaraeon mewn manau anghysbell, meysydd parcio, llety i ffwrdd o ardal y prif gampws, rhodfeydd a llwybrau anghysbell, manau hwsmona anifeiliaid).
- 43.5** Mae gan y coleg bolisi, a weithredir mewn gwirionedd, ar gyfer rheoli neu oruchwylio'r defnydd gan fyfyrwyr o fannau risg uchel a mynediad iddynt o fewn adeiladau a thiroedd y coleg (e.e. manau megis gymnasia, manau peiriannau, labordai, gweithdai, pyllau nofio).
- 43.6** Mae gan y coleg bolisi iechyd a diogelwch boddhaol, sydd ar gael i'r holl staff.
- 43.7** Mae gan y coleg system effeithiol o asesu risg, gyda chofnodion ysgrifenedig (gan gynnwys ymgynghori â myfyrwyr) i ganfod y risg i fyfyrwyr a'i leihau rhag peryglon cynhenid yn adeiladau'r coleg, gweithgareddau neu diroedd y coleg, gan gynnwys peryglon y gall myfyrwyr fynd iddynt heb ganiatâd (e.e. ffyrdd, glannau afon, toeau fflat, offer hobiau, drylliau, deunyddiau glanhau, ystafelloedd peiriannau ac offer) a pheryglon a all godi yn sgil yr adeg o'r dydd y mae'r myfyrwyr yn bresennol (e.e. gwaith hwsmona anifeiliaid yn gynnar yn y bore).

Llety ar gyfer myfyrwyr sy'n sâl

CANLYNIAD

Caiff myfyrwyr eu lletya'n addas pan fyddant yn sâl.

SAFON 44

44.1 Mae llety a gofal addas ar gael i ofalu am fyfyrwyr sy'n sâl.

44.2 Nid yw unrhyw ystafell i gleifion ar gyfer myfyrwyr yn cynnwys toiled a chyfleusterau ymolchi ar wahân i'r rhai a ddefnyddir gan fyfyrwyr eraill, yn rhy fach nac wedi'i gorlenwi pan fydd yn llawn¹⁶, ac mae'n bodloni safonau eraill yn y ddogfen hon.

¹⁶ Os oes amheuaeth am ystafell i gleifion, wrth gynllunio llety newydd tra'n cynllunio llety newydd, neu lle bo anghytundeb ar y maint digonol, dylid dilyn canllawiau o 7.4 m² o le llawr am bob gwely, gyda gwelyau o leiaf 1.8 m ar wahân.

Golchi dillad

CANLYNIAD

Mae yna drefniadau i sicrhau bod dillad a dillad gwely myfyrwyr yn cael eu golchi yn briodol.

SAFON 45

45.1 Mae darpariaeth golchi dillad ddigonol ar gyfer dillad a dillad gwely myfyrwyr.

45.2 Mae gan fyfyrwyr gyfleusterau boddhaol, digonol a hygyrch i olchi a sychu eu dillad eu hunain.

45.3 Lle mae'r coleg yn darparu gwasanaethau golchi dillad i fyfyrwyr, neu'n contractio gyda darparydd allanol, caiff eu dillad gwely a'u dillad eu golchi'n rheolaidd gan y coleg.

45.4 Caiff unrhyw ddillad gwely a dillad myfyrwyr a olchir gan y coleg neu o dan gontract coleg eu storio'n foddhaol a'u rhoi i'r myfyriwr cywir ar ôl eu golchi.

Prynu bwyd, deunydd ysgrifennu ac eitemau personol

CANLYNIAD

Gall myfyrwyr brynu bwyd a deunyddiau personol tra byddant yn cael eu lletya yn y coleg.

SAFON 46

- 46.1 Gall myfyrwyr brynu bwydydd sylfaenol a mân eitemau personol angenrheidiol a deunyddiau ysgrifennu tra byddant yn cael eu lletya yn y coleg.**
- 46.2** Gall myfyrwyr brynu mân bethau ymolchi personol, deunydd ysgrifennu a bwydydd sylfaenol naill ai yn siop y coleg, neu mewn siop ger safle'r coleg.

Tŷ Llety

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles myfyrwyr a roir mewn tŷ llety gan y coleg.

SAFON 47

- 47.1 Mae unrhyw dŷ llety a drefnir yn uniongyrchol gan y coleg i letya myfyrwyr o dan 18 oed yn darparu llety a goruchwyliaeth foddhaol, yn cael eu harchwilio gan y coleg cyn iddynt gael eu defnyddio, ac yn cael eu monitro gan y coleg pan ddefnyddir hwy.¹⁷**
- 47.2** Datgenir yn glir i rieni myfyrwyr o dan 18 oed, ac i'r myfyrwyr eu hunain, a yw unrhyw dŷ llety sy'n lletya myfyrwyr wedi'i drefnu gan y coleg neu gan y rhieni eu hunain.
- 47.3** Mae unrhyw dŷ llety a ddarperir neu a drefnir gan y coleg mewn tai preifat yn darparu:
- i bob myfyriwr naill ai ystafell wely sengl neu ystafell wely a rennir ag un myfyriwr arall o dan 18 oed ac o'r un gender
 - ystafell wely na chaiff ei rhannu ag unrhyw aelod o'r teulu "bugeiliol"
 - gwely, dillad gwely a lle storio addas
 - goleuo a gwresogi digonol
 - y cyfle i ddefnyddio toiled, basn ymolchi a chyfleusterau cawod neu faddon digonol arferol, mewn preifatrwydd
 - prydau bwyd digonol, addas a rheolaidd, yn cael eu darparu mewn amgylchiadau hylan, sef y prydau bwyd na chânt eu bwyta yn y coleg
 - ffôn sy'n galluogi myfyrwyr i wneud a derbyn galwadau ar bob adeg resymol, gyda thaliadau "yn ôl y gost" yn unig am y galwadau a wneir
 - y cyfle i fyfyrwyr fynd a dod i'r tŷ llety bob adeg resymol, heb gael eu "cloi allan" ar unrhyw adeg y byddai'r coleg yn disgwyl iddynt fod yn eu tŷ llety

¹⁷ Tŷ llety wedi'u trefnu gan y coleg yw'r rheiny a ddarperir neu a drefnir ar gyfer myfyriwr o dan 18 oed gan y coleg, gan unrhyw aelod o'i staff fel rhan o'u gwaith dros y coleg, neu gan asiant neu gorff yn gweithredu dros y coleg, yn hytrach na chan riant y myfyriwr neu asiant neu gorff allanol yn gweithredu ar ran y rhieni. Maent yn cynnwys defnydd o dai llety yn ystod y tymor yn hytrach na llety preswyl ar-y-safle, tai llety gwyliau a drefnir gan neu ar ran y coleg ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed, tai llety a ddefnyddir yn ystod cyfnod rhyddhau mewn bloc, a myfyrwyr yn lojo gydag aelodau o'r staff yn ystod y gwyliau. Os yw'r coleg yn darparu rhestrau llety, dylai gynnwys datganiad clir gyda hwy ynghylch p'un ai'r coleg, neu'r rhiant, sy'n gyfrifol am letya'r myfyriwr (os yw'r coleg yn gyfrifol, mae'r safonau hyn yn gymwys; os yw'r rhiant yn gyfrifol, nid ydynt). Mae'r coleg hefyd yn gyfrifol am lety pobl ifanc o dan 18 oed nad ydynt yn dilyn cyrsiau yn y coleg, ond sy'n mynychu (e.e.) gweithgareddau gwyliau neu gyrsiau iaith, os trefnir y llety hwn yn uniongyrchol gan y coleg, ond nid fel arall. Nid yw'r safon hon yn gymwys i unrhyw fath o lety nad yw'n cael ei drefnu gan neu ar ran y coleg.

- darpariaeth ddigonol i olchi dillad a dillad gwely'r myfyrwyr, naill ai gan y "teulu bugeiliol" neu gan y myfyriwr, oni wneir hynny yn y coleg
- lle digonol i eistedd ac i astudio ar gyfer pob myfyriwr, naill ai mewn ystafell fyw a chysgu neu mewn ystafell ar gyfer y myfyrwyr ar wahân i ystafelloedd y teulu bugeiliol eu hunain
- llety sy'n rhydd rhag peryglon iechyd a diogelwch sylweddol amlwg (e.e. ffitiadau neu offer trydanol peryglus, risgiau tân)
- lefel foddhaol o hylendid cyffredinol, addurno a glendid.

- 47.4** Ar gyfer tŷ llety a ddarperir gan y coleg neu a drefnir ganddo, gall y coleg ddangos bod aelodau o'r teulu bugeiliol sy'n oedolion wedi'u gwirio drwy wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, gyda chanlyniad boddhaol y gywyddys amdano cyn bod unrhyw fyfyriwr yn cael ei leoli.
- 47.5** Mae gan y coleg gytundeb ysgrifenedig boddhaol â phob oedolyn sy'n darparu tŷ llety i fyfyrwyr ar ei ran.
- 47.6** Mae'r coleg yn darparu canllawiau ysgrifenedig boddhaol i deuluoedd bugeiliol sy'n lletya myfyrwyr ar ran y coleg, ac mae'n cynnwys polisi ac arferion y coleg ar fyfyrwyr sy'n lojo.
- 47.7** Mae aelod addas a chymws o'r coleg yn ymweld â phob tŷ llety arfaethedig, ac yn cyfweld â'r oedolyn a fydd yn gyfrifol am letya'r myfyriwr neu'r myfyrwyr ym mhob tŷ llety, ac mae wedi cofnodi asesiad boddhaol, cyn lleoli unrhyw ddisgybl yno.
- 47.8** Mae gan y coleg dystiolaeth ddogfennol fod aelod o'r staff, o leiaf unwaith bob tymor coleg, yn trafod y tŷ llety, ar wahân, gyda phob myfyriwr a letyir gan neu ar ran y coleg mewn tŷ llety, gan gofnodi asesiad y myfyriwr yn ysgrifenedig a chymryd camau ynghylch unrhyw bryderon neu gŵynion.
- 47.9** Mae gan y coleg dystiolaeth ddogfennol fod o aelod o'r staff, o leiaf unwaith bob blwyddyn coleg, yn ymweld â'r holl dai llety sy'n lletya myfyrwyr er mwyn archwilio a yw'r llety yn parhau i fod yn addas ac er mwyn adolygu'r ddarpariaeth gyda'r oedolyn sy'n gyfrifol am y myfyriwr neu'r myfyrwyr ym mhob tŷ llety, gan gofnodi asesiadau yn ysgrifenedig a chymryd camau ar unrhyw bryderon neu gŵynion a ddynodir.
- 47.10** Mae trefniadau ar gael i oedolion sy'n darparu tŷ llety i fyfyrwyr geisio a chael cyngor ar broblemau, gan gynnwys trefniadau boddhaol ar gyfer cysylltu gyda'r nos ac ar benwythnosau â staff cymorth y coleg.

Llety oddi ar y safle

CANLYNIAD

Diogelir a hybir lles myfyrwyr pan letyir hwy i ffwrdd o safle'r coleg.

SAFON 48

- 48.1 Mae unrhyw lety cyfnod-byr oddi ar y safle a drefnir gan y coleg ar gyfer unrhyw un o'i fyfyrwyr yn darparu llety a goruchwyliaeth foddhaol, yn cael ei archwilio gan y coleg cyn ei ddefnyddio, ac yn cael ei fonitro gan y coleg pan ddefnyddir ef.**
- 48.2** Mae myfyrwyr o dan 18 oed sy'n aros mewn llety i ffwrdd o'r coleg yn gallu cysylltu, ar bob adeg resymol, â staff cyfrifol y coleg neu staff goruchwyllo lleol y mae'r coleg yn eu dynodi iddynt yn agos i'w lleoliad, a chael cymorth ganddynt os oes angen.
- 48.3** Mae gan y coleg dystiolaeth ddogfennol ei fod wedi asesu addasrwydd unrhyw lety i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr o dan 18 oed i ffwrdd o safle'r coleg cyn i'r myfyrwyr gael eu lletya yno, drwy wybodaeth heblaw honno a ddarperir gan ddarparwydd y llety ei hunan; drwy ymweliad asesu gan staff y coleg, gwybodaeth a gafwyd gan ddefnyddwyr eraill y llety o dan sylw, drwy gysylltiadau lleol gan y coleg, neu drwy ddefnydd blaenorol o'r llety.
- 48.4** Mae llety cyfnod byr (gan gynnwys llety ar gyfer teithiau maes, gweithgareddau a gwrsylla) sy'n cael ei ddarparu neu'i drefnu i fyfyrwyr i ffwrdd o'r coleg yn darparu:
- gwely a dillad gwely digonol ac addas ar gyfer pob myfyriwr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt wrth wersylla)
 - darpariaeth gysgu ar wahân i'r ddau gender lle bynnag y bo'n ymarferol
 - cyfle digonol i ddefnyddio cyfleusterau toiled ac ymolchi (ar wahân i'r ddau gender os yw'n bosibl) sy'n briodol i natur y gweithgaredd
 - darpariaeth reolaidd o ddigon o fwyd a diod priodol, wedi'u cadw a'u paratoi o dan amodau digonol o hylendid i leihau'r risg o glefyd
 - y gallu i gysylltu â gwasanaethau meddygol, a darpariaeth i ddychwelyd i'r coleg neu adref, oherwydd damwain neu salwch
 - goruchwyliaeth foddhaol dros fyfyrwyr gan oedolion y gellir cysylltu â hwy ac sy'n gymwys i oruchwyllo'r gweithgareddau o dan sylw, gyda staff wrth gefn i ymdrin ag argyfyngau
 - ar gyfer gweithgareddau risg uchel, hyfforddwyr neu oruchwylwyr â chymhwyster priodol (e.e. gan gorff neu gymdeithas lywodraethu genedlaethol berthnasol)
 - offer priodol, offer a chyfleusterau diogelwch, a briff neu hyfforddiant ar gyfer unrhyw weithgareddau risg uchel yr ymgwymerir â hwy

- dillad digonol, sy'n addas ar gyfer y gweithgareddau yr ymgymereir â hwy, ac yn ddigonol i sicrhau digon o gynhesrwydd
- addasu'r gweithgareddau ar gyfer anghenion arbennig unrhyw fyfyrwr unigol (e.e. anabledd, asma, enwresis, anghenion deiet, alergau)
- cadw meddyginiaeth unrhyw fyfyrwr yn ddiogel a darparu'r meddyginiaeth hwnnw er mwyn ei weinyddu gan y myfyrwr neu gan staff, os yw'r myfyrwr yn dymuno hynny.

Rhestr o Bolisiâu a Dogfennau Mae'r polisiâu a'r dogfennau coleg canlynol yn ofynnol o dan y Safonau Cenedlaethol Gofynnol:

Llawlyfr Staff / canllawiau i'r staff preswyl

[gall y ddogfen hon gynnwys llawer o'r dogfennau polisi penodol canlynol]

Datganiad o egwyddorion ac arferion preswyl a chymorth myfyrwyr

Mynd i'r afael â bwlio a harasio

Amddiffyn myfyrwyr

'Chwythu'r chwiban' gan staff

Polisi disgyblu myfyrwyr (gan gynnwys sancsiynau ac atal)

Gweithdrefn gŵyno

Mynd i'r afael ag yfed o dan oed, camddefnyddio sylweddau a meddu deunydd anllad

Monitro gwasanaethau i fyfyrwyr sy'n cael eu contractio allan

Hunan asesiad o ddarpariaeth breswyl a lles

Asesu risg

Cynlluniau ar gyfer argyfyngau y gellir eu rhagweld

Rhaglen sefydlu, hyfforddi a datblygu staff

Gweithdrefn ddisgyblu staff

Dyletswyddau a chyfrifoldebau a roddir i unrhyw fyfyrwyr hŷn

Gwybodaeth ysgrifenedig allweddol i fyfyrwyr newydd

Rotas dyletswydd staff y tu allan i amser addysgu

Disgrifiadau swydd i staff â dyletswyddau preswyl a lles

Diogelwch a goruchwyliaeth ar deithiau coleg

Mynediad i dir ac adeiladau'r coleg gan bobl y tu allan i'r coleg

Mynediad myfyrwyr i fannau sy'n peri risg yn adeiladau ac ar dir y coleg

Polisi iechyd a diogelwch

Pan fo'n gymwy:

Cytundeb ag unrhyw oedolyn sy'n darparu tŷ llety i fyfyrwyr

Canllawiau lles i deuluoedd bugeiliol sy'n lletya myfyrwyr ar ran y coleg.

Cofnodion

Mae'r cofnodion coleg canlynol yn ofynnol o dan y Safonau Cenedlaethol Gofynnol:

Amddiffyn myfyrwyr: honiadau neu amheuon

Y prif gosbau yn erbyn myfyrwyr

Defnyddio atal corfforol

Cŵynion difrifol

Cofnodion myfyrwyr unigol (yn cynnwys gwybodaeth bersonol, iechyd a lles)

Rhoi meddyginiaeth, triniaeth a chymorth cyntaf

Afiechydon damweiniau ac anafiadau sylweddol

Caniatâd rhiant i gael triniaeth feddygol a deintyddol, cymorth cyntaf a meddyginiaeth ddibresgripsiwn

Asesiadau risg

Cofnodion a gwiriadau recriwtio staff (gan gynnwys gwiriadau ar eraill y mae ganddynt fynediad sylweddol at y myfyrwyr neu at lety'r myfyrwyr heb oruchwyliaeth)

Profion a driliau rhagofalon tân

Pan fo'n gymwys:

Arian ac eiddo personol y myfyrwyr y mae'r staff yn gofalu amdano

Cynlluniau gofal i fyfyrwyr ag anghenion arbennig

Asesiad a monitro tŷ llety

Asesiad o lety oddi ar y safle

Attodiad 3**Geirfa**

Lluniwyd yr eirfa hon i helpu'r darllenydd yn gyffredinol i ddehongli'r safonau. Nid yw'r diffiniadau a roddir yn effeithio ar yr ystyr a all fod i derm o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Amddiffyn Plant

Cymryd camau rhesymol i leihau'r perygl o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, esgeulustod neu niwed sylweddol i berson o dan 18 oed, galluogi personau o'r fath a staff i leisio pryderon ynghylch camdriniaeth wirioneddol neu bosibl neu niwed sylweddol, ac ymateb yn briodol i honiadau, digwyddiadau neu amheuan o gamdriniaeth neu niwed sylweddol i berson o dan 18 oed – yn y coleg, yn y cartref, neu y tu allan i'r coleg neu'r cartref.

Amser Rhydd

Amser y tu allan i amser addysgu, amser astudio gofynnol ac amser gweithgareddau sydd wedi'u trefnu, pan fydd myfyrwyr yn gallu penderfynu drostynt eu hunain sut i'w dreulio (o fewn rheswm), naill ai drwy ddewis rhwng y gweithgareddau sydd ar gael a'u gorchwylion eu hunain, neu ddewis cymdeithasu neu dreulio amser ar eu pennau eu hunain.

Asesiad Risg

Y broses o nodi peryglon i ddiogelwch neu les myfyrwyr, gan amcangyfrif pa mor ddifrifol â pha mor debygol ydynt, a nodi mesurau rhesymol i gadw peryglon diangen i'r lleiaf posibl, eu cofnodi'n ysgrifenedig fel sail ar gyfer cynllun gweithredu a gwneud penderfyniadau i leihau peryglon diangen i fyfyrwyr.

Atal

Defnyddio dull ymyrryd neu rym corfforol rhesymol i atal unrhyw anaf neu niwed difrifol i eiddo.

Bwlio

Achosi poen, gofid, pryder, gwaradwydd neu ddieithriad cymdeithasol, yn fwriadol neu yn ganfyddedig, i un myfyriwr gan un neu ragor o bobl eraill, drwy ddulliau corfforol neu eiriol, neu drwy niweidio eiddo neu ei golli.

Coleg Arbenigol

Coleg sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn lletya myfyrwyr ag anableddau, ac felly y mae'n ofynnol iddo gofrestru fel Cartref Gofal gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Coleg Prif-ffrwd

Coleg Addysg Bellach nad yw'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn lletya myfyrwyr ag anableddau, ac nad yw'n ofynnol iddo gofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fel Cartref Gofal.

Corff Llywodraethu Cenedlaethol (ar gyfer gweithgaredd)

Y corff neu'r gymdeithas genedlaethol neu, os oes mwy nag un, y corff neu'r gymdeithas arweiniol gydnabyddedig, sy'n pennu cymwysterau ar gyfer hyfforddi a goruchwyllo chwaraeon neu weithgaredd, ynghyd â chanllawiau ar eu hymarfer yn ddiogel.

Cwyselwr

Yn y cyd-destun hwn, aelod o'r staff neu berson y tu allan i'r coleg, sydd â chymhwyster priodol fel cwyselwr ac a benodwyd i ddarparu gwasanaethau cwysel ac chymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â materion a phroblemau personol.

Cyfleusterau Cymorth

Cyfleusterau sy'n darparu cyngor, canllawiau a gwasanaethau i fyfyrwyr sy'n ymwneud â'u llety, eu lles ac unrhyw broblemau personol, yn hytrach na'u gofynion addysgol neu academiaidd.

Cynllun Gofal Personol

Cytundeb ar sut y bydd y coleg yn bodloni anghenion iechyd neu gymorth personol arbennig y myfyriwr.

Disgrifiad Swydd

Datganiad ysgrifenedig, cytûn a chyfoes o brif dasgau a chyfrifoldebau aelod staff yn ei swydd yn y coleg, gan gynnwys diffiniad cyffredinol o'u rôl a'r person y maent yn atebol iddo.

Dril Tân

Cychwyn larwm tân ar brawf ac ymarfer y cynllun i symud myfyrwyr o'r adeilad o dan sylw i fan ymgynnull diogel, gan nodi unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella cyflymder ac effeithlonrwydd unrhyw symudiad o'r fath.

Goruchwyllo pobl ifanc

Rheoli a gofalu yn effeithiol am bobl ifanc o dan 18 oed. Nid yw hyn yn golygu bod aelod o'r staff yn bresennol drwy'r amser, ond mae'n golygu bod y person ifanc yn gwybod pwy sy'n gyfrifol amdanynt, sut mae cysylltu â'r person hwnnw; ac mae'n golygu bod yr aelod staff yn bresennol ac yn agos yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y gallant gymryd cyfrifoldeb effeithiol dros les y person ifanc.

Gwasanaeth Cymunedol

Gwaith a wneir gan fyfyrwyr i helpu eraill neu'r gymuned leol neu'r amgylchedd y tu allan i'r coleg.

Gwasanaethau a contractir allan

Llety neu ddarpariaeth i fyfyrwyr a wneir gan berson, cwmni neu gorff arall ar ran y coleg neu a drefnir gan y coleg ar gyfer ei fyfyrwyr, p'un ai o dan contract ffurfiol ai peidio.

Gwasanaethau Lles Myfyrwyr

Darpariaeth benodol gan y coleg i ddiogelu a hybu lles myfyrwyr, gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau goruchwyllo, cynorthwyo a chynghori, a ddarperir yn aml gan y coleg yn ganolog yn ychwanegol at oruchwyllo a chynorthwyo myfyrwyr o ddydd i ddydd yn eu hunedau preswyl.

Gweithgareddau Risg-uchel

Gweithgareddau ar gyfer y myfyrwyr sy'n peri peryglon sylweddol neu anarferol i ddiogelwch neu les myfyrwyr, sy'n gofyn am asesiad risg a mesurau diogelwch cadarnhaol, ond sydd ynghlwm mewn ffordd resymol â gweithgaredd gwerth chweil.

Harasio

Unrhyw gamau afresymol neu ragfarnllyd tuag at fyfyriwr, gan staff, myfywrwr neu bobl eraill, y bwriedir iddynt achosi neu y maent yn debygol o achosi gofid, pryder, gwaradwydd neu ddieithriad cymdeithasol.

Hunan asesiad (ar arferion lles)

Gwerthusiad o ddarpariaeth lety a lles y coleg i fyfywrwr, neu elfennau o'r ddarpariaeth honno, a weithredir gan staff y coleg neu gan fyfywrwr i ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo wrth gynnal neu wella safonau'r ddarpariaeth.

Lles

Bodloni anghenion corfforol, anghenion diogelwch, anghenion personol, anghenion emosiynol ac anghenion ysbrydol rhesymol pob myfyriwr unigol, rhoi cymorth a chyfarwyddyd iddynt yn ôl yr angen, a galluogi datblygiad normal y myfyriwr ar gyfer y dyfodol a'i gyflawniad yn y presennol, gan gymryd i ystyriaeth oedran, nodweddion a dymuniadau'r myfyriwr.

Lletya (myfyriwr)

Darparu llety dros nos ar safle'r coleg i fyfyriwr o dan ddeunaw oed ac sydd felly'n gyfreithiol yn dal yn blentyn, sydd fel arfer ond nid bob amser yn un o fyfywrwr y coleg, neu drefnu llety i fyfyriwr o dan ddeunaw oed yn rhywle arall heblaw ar safle'r coleg (e.e. mewn tŷ llety, hostel neu yng nghartref aelod o staff y coleg).

Llinell Gymorth

Rhif ffôn sydd ar gael i fyfywrwr i geisio cyngor ar faterion neu broblemau personol, a ddarperir gan gorff addas (e.e. ChildLine, y Samariaid, neu wasanaethau cynghori priodol sy'n ymwneud â phroblemau penodol).

Meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn

Meddyginiaethau sy'n addas i fyfywrwr (megis poenladdwyr priodol) y gellir eu prynu "dros y cownter" heb bresgripsiwn.

Metron

Aelod o staff y coleg (a all fod yn nyrs hefyd neu beidio) nad yw'n addysgu gyda dyletswyddau dros fyfywrwr preswyl sydd fel arfer yn cynnwys dyletswyddau lles, dyletswyddau domestig, dyletswyddau goruchwyllo a dyletswyddau gofal iechyd.

Myfyriwr

Person sy'n mynychu cwrs mewn coleg neu wedi'i drefnu gan goleg, neu'n preswyl ar safle coleg neu le arall wedi'i drefnu'n uniongyrchol gan y coleg.

Mynediad Sylweddol heb Oruchwyliaeth (at fyfywrwr)

Pan fydd oedolyn yn cael cysylltiad rheolaidd neu estynedig â myfywrwr, neu fynediad i lety'r myfywrwr sy'n rhoi cyfle ar gyfer cysylltiad o'r fath, heb fod oedolyn arall sy'n gyfrifol am les a goruchwyliaeth y myfywrwr yn bresennol.

Niwed Sylweddol

Unrhyw niwed corfforol, rhywiol neu emosiynol, esgeulustod, damwain neu anaf sy'n ddigon difrifol i effeithio'n andwyol ar ddatblygiad disgwylidig neu normal y myfyriwr, ei gynnydd a'i fwynhad o fywyd myfyriwr.

Nyrs

Person gyda chofrestriad a chymhwyster cyfredol i ymarfer fel nyrs yn y DU.

Person Cymorth Cyntaf

Person sy'n dal cymhwyster cyfredol ar roi cymorth cyntaf, gan gorff cydnabyddedig, ac a ddynodwyd i roi cymorth cyntaf i fyfyrwyr os yw'n angenrheidiol.

Prosbectws

Dogfen a ddarperir i holl rieni myfyrwyr preswyl o dan ddeunaw oed (ac yn aml i rieni myfyrwyr eraill yn y coleg) sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol ynghylch y coleg a'i bolisiau a'i arferion preswyl a lles ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed.

Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth

Grŵp a sefydlwyd i benderfynu'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn ynghylch amddiffyn plant mewn ardal benodol.

Rhaglen Sefydlu

Hyfforddiant neu gyfarwyddyd cychwynnol sy'n cael ei roi wrth i berson ddechrau cymryd rhan mewn lletya preswyl mewn coleg – cyfarwyddyd i fyfyrwr newydd wrth iddo gyrraedd y coleg; hyfforddiant cychwynnol ar bolisiau ac arferion lletya a lles myfyrwyr y coleg ar gyfer aelod o'r staff sy'n dechrau ei gyfrifoldebau ar lety neu les myfyrwyr.

Rhaglen Weithgaredd

Gweithgareddau adloniant a chymdeithasol a drefnir gan y coleg ar gyfer myfyrwyr y tu allan i amser addysgu ac astudio.

Safon

Datganiad o'r hyn y dylid ei ddarparu neu ei wneud er mwyn diogelu a hybu lles myfyrwyr preswyl o dan 18 oed yn ddigonol.

Seremoni Dderbyn

Traddodiad neu seremoni sy'n cael ei gosod ar fyfyrwyr newydd wrth iddynt gyrraedd coleg, fel arfer gan fyfyrwyr sefydlog, sy'n debygol o achosi poen, pryder neu waradwydd.

Staff Asiantaeth

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y coleg, ond sy'n cael eu darparu gan asiantaeth sy'n eu cyflogi ac sy'n contractio i ddarparu staff am gyfnod penodol i'r coleg.

Staff Atodol

Staff sy'n gweithio yn y coleg mewn swyddi heblaw rhai addysgu a phreswyl, megis staff domestig, staff glanhau, staff arlwy, staff cynnal-a-chadw, staff diogelwch a staff sy'n gofalu am diroedd, a gyrwyr.

Staff Contract

Staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y coleg, ond gan gontractiwr sy'n gwneud gwaith yn y coleg o dan gontract gyda'r coleg; e.e. staff glanhau, arlwy, adeiladu, diogelwch, gyrru neu gynnal-a-chadw a gyflogir gan gontractiwr allanol sy'n gweithio yn y coleg neu ar ei ran.

Staff Diogelwch

Staff y coleg, neu staff o dan gontract, a gyflogir i batrolio neu fonitro tiroedd ac adeiladau'r coleg, i fynd i'r afael â mynediad na chafodd ei awdurdodi i adeiladau a thiroedd y coleg ac ymddygiad neu niwed annerbyniol, yn aml gan dderbyn cyfrifoldeb aml am sicrhau bod drysau, clwydi a ffenestri wedi'u cau a'u cloi yn ôl yr angen.

Staff Gwasanaethau Myfyrwr

Staff y coleg sydd â dyletswyddau penodol dros les myfyrwr a darparu gwasanaethau cymorth i fyfyrwr.

Staff Lles

Staff y coleg â chyfrifoldebau penodol dros les y myfyrwr, p'un a ydynt yn gyfrifol hefyd am faterion academiaidd neu beidio.

Stoc (o feddyginiaeth)

Meddyginiaeth sy'n cael ei chadw at ddefnydd cyffredinol ar gyfer unrhyw fyfyrwr y mae arno ei angen, yn hytrach na meddyginiaeth ragnodedig sy'n cael ei chadw ar gyfer yr unigolyn y cafodd ei rhagnodi ar ei gyfer yn unig.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Corff cenedlaethol sy'n cynnal gwiriadau'r heddlu i ganiatáu i asesiad gael ei wneud (e.e. gan goleg) ar gymhwyster person i weithio gyda phobl o dan 18 oed. Mae lefelau gwirio gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol o gysylltiad rheolaidd â myfyrwr o dan 18 oed a chyfrifoldeb am eu goruchwyllo..

Teulu Bugeiliol

Teulu sy'n lletya myfyrwr yn eu cartref eu hunain ar ran y coleg.

Tiwtor

Aelod o staff y coleg sydd (yn y cyd-destun hwn) â chyfrifoldeb penodol dros les myfyrwr neu grŵp o fyfyrwr

Tŷ Llety

Llety sy'n cael ei drefnu gan y coleg ar gyfer myfyrwr y tu allan i safle'r coleg (e.e. mewn cartref teuluol, mewn fflat myfyrwr neu gyda landlord).

Uned Breswyl

Adeilad neu ran o adeilad sy'n lletya nifer o fyfyrwr preswyl.

Warden

Aelod o staff y coleg â chyfrifoldeb dros lety preswyl myfyrwr, neu dros un neu fwy nag un uned breswyl i fyfyrwr.

Ystafell gyffredin

Ystafell sydd ar gael i fyfyrwr i ymlacio, cymdeithasu a deunydd adloniant cyffredinol, naill mewn llety preswyl neu rywle arall yn y coleg.

Ystafell i gleifion

Ystafell neu ystafelloedd wedi'u dynodi'n neilltuol i letya a gofalu am fyfyrwr sy'n sâl yn y coleg.